

HYSBYSEB Y GWERTHU GWARTHUS.



Difrodwyd llethrau gogleddol Moel Eilio ddiwedd Hydref gan fflyd o foduron a yrrwyd i'r copa ar gyfer ffilmio hysbyseb i gwmni Land Rover. Roedd dwy o athrawesau lleol yno ar y pryd, ac yr oeddent yn ddigon effro i dynnu lluniau o'r digwyddiad – nes i aelod o'r criw ffilmio sylweddoli fod hyn yn digwydd a'u bygwth i ddileu'r lluniau er gwaethaf eu protestiadau. Cadwyd un llun, a chafodd yr 'Eco' ganiatad i'w ddefnyddio.

Cafodd yr heddlu lleol gwynion ynglŷn â'r moduron ar y mynydd, a daeth un o wardeiniaid y Parc Cenedlaethol yno, ond ni allai wneud dim i atal y digwyddiad oherwydd fod y tîr feddiannwr wedi rhoi caniatad.

Yn ddiweddarach, daeth y wybodaeth i'r amlwg fod y cwmni ffilmio wedi cysylltu â Pharc Cenedlaethol Eryri, ond na roddwyd gwybodaeth fanwl iddynt am leoliad y ffilmio. Mewn datganiad ar ran y Parc dywedwyd: "gwnaethpwyd pob ymdrech i'w perswadio rhag ffilmio..... mae'n hynod rhwystredig na all yr Awdurdod atal y math hwn o weithgaredd masnachol."

Un corff cyhoeddus a allai fod wedi rhwystro hyn rhag digwydd yw Cyfoeth Naturiol Cymru, sydd â chyfrifoldeb am warchod copa Moel Eilio sy'n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Roedd y corff hwn hefyd yn ymwybodol o'r bwriad i ffilmio, ond yn analluog i atal y cwmni. Ceisiwyd dwyn perswad arnynt i beidio cyrchu i'r copa, gan ddatgan fod person wedi ei ddedfrydu i garchar yn ddiweddar am yrru modur i fyny'r Wyddfa. Ond er gwaethaf yr apeliadau, bwriodd y cwmni ffilmio ymlaen, gan adael rhychau dwfn ar hyd ochr y mynydd a chroesi rhan o'r safle dan warchodaeth ar y copa.

Rhaid pwysleisio nad yw Cwmni Land Rover wedi gwneud unrhywbeth anghyfreithlon. Roedd yr asiantaeth a gyflogwyd i ffilmio'r hysbyseb ar eu rhan wedi cael caniatad y tîr feddiannwr. Ond, anwybyddwyd cyngor dau gorff cyhoeddus, a pharhau

â'u bwriad o ffilmio cerbydau'n cael eu gyrru ar dirwedd bregus. Mae'n amlwg nad oedd cyfrifoldeb amgylcheddol yn golygu dim iddynt. Yn wir, mae'r cwmni hefyd yn lled-awgrymu fod peth o'r difrod eisoes wedi ei wneud gan gontractwyr ffensio. Dichon y gellir gwrth-brofi hynny.

Un o'r trigolion lleol sydd wedi ei gythruddo gan y digwyddiad yw Garry Smith o Ddinorwig, sy'n dywysydd teithiau ar fynydd. Mae'n werth darllen ei sylwadau ar safle ukhillwalking. Mae'n codi rhai pwyntiau y dylid eu hystyried o ddifrif:

- Mae'r dewis o Foel Eilio i hybu safleoedd gyrru-oddia-ffordd (off-road) yn drahaus ac anystyriol. Dylai cwmni mor enwog a Land Rover dderbyn gwell cyngor gan eu hasiantaeth hysbysebu.
- Mae'n ymddangos nad yw'r sustem bresennol o warchodaeth amgylcheddol yng Nghymru yn ateb ei phwrpas. Ni allai Awdurdod y Parc Cenedlaethol na Chyfoeth Naturiol Cymru ddefnyddio unrhyw bwerau cyfreithiol i atal y digwyddiad; dim ond 'cynghori'.
- Mae'r neges a anfonir am Eryri pan gaiff yr hysbyseb hon ei darlledu yn awgrymu fod yma nefoedd o le i unrhyw un sydd am yrru-oddia-ffordd, ac nad oes unrhyw waharddiad rhag gwneud hynny.

Ar y llaw arall, efallai nad yw hysbysebu yn cael unrhyw effaith... ..

O.N. Mae'n amlwg fod y digwyddiad wedi ennyn digon o ddiddordeb i gwmni radio lleol o Coventry (ble mae pencadlys Cwmni Land Rover) gysylltu â golygydd yr 'Eco' gyda'r bwriad o gymryd rhan mewn rhaglen yn trin a thrafod yr achlysur. Pawb a'i fys....



Beth yw pwrpas gosod yr arwydd hwn ger giat Bwlch y Groes yn rhybuddio rhag gyrru ar y mynydd?



Gyda diolch i Sian Williams a Garry Smith am y lluniau.

Rhifyn	Copi i law	Bwndelu	Ble
Nadolig/Ionawr	Rhagfyr 7	Rhagfyr 19	Ysgol Brynrefail
Chwefror	Ionawr 18	Ionawr 30	Waunfawr

RHIF 427 Rhagfyr 2014

Argraffwyd gan
Wasg Dwyfor
Penygroes 01286 881911

SWYDDOGION A GOHEBWYR

**Straeon ac erthyglau
ar e-bost i
Dafydd Whiteside Thomas
Bron y Nant, Llanrug
01286 673515
ecorwyddfa@gmail.com**

**CADEIRYDD
Y PWYLLGOR GWAITH**
Geraint Elis

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

FFOTOGRAFFWR
Gwynnaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (238495)
glasgoed@hotmail.com

TREFNYDD HYSBYSEBION
Eifion Roberts, Swŷn-y-Gwynt,
Llanberis (870740)
eifionroberts132@btinternet.com

TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD BWNDELU
Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

GOHEBWYR PENTREFI
DEINIOLEN: Nia Gruffudd (872133)

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts,
Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Rhiannon Roberts,
Cefn Rhos Isaf, Penrhos.
rhiannonmai@btinternet.com

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Swŷn-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn
Moelyn (675384)

NANT PERIS: Kate Pritchard (872331)
neu econantperis@hotmail.com

PENISARWAUN:
ecopenisarwaun@hotmail.co.uk

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

gosodwyd gan

grid 76
dylunio graffeg
07766956673

LLYTHYRAU

Cyrsiau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Annwyl Ddarllenydd,

Dyma dynnu eich sylw at gynllun o dan nawdd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a allai fod o ddiddordeb ichi. Eisoes mae myfyrwyr ledled Cymru a'r tu hwnt (gan gynnwys rhai o'r Wladfa) wedi dechrau astudio ar lein.

Ond brysiwch! Y dyddiad cau ar gyfer cofrestru yw 12 Ionawr 2015. Mae Prifysgol Aberystwyth a Phrifysgol Bangor wedi dod at ei gilydd i greu cyrsiau newydd ar y we trwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob math o feysydd — o Hanes i Seicoleg, o Athroniaeth i Ffotograffiaeth, o Sgiliau Iaith i Gerddoriaeth. I weld y dewis eang o gyrsiau sydd eisoes ar gael ewch ar y we: www.colegcymraeg.ac.uk/dysguobell

Mae'r cyrsiau hyn i gyd ar gael i bawb dros 17 oed, a does dim rhaid bod ar y campws i'w hastudio oherwydd bod y cyrsiau hyn i gyd ar y we. Os ydych chi am ddatblygu sgiliau yn y gweithle neu ddilyn pwnc sydd o ddiddordeb ichi mae hwn yn gyfle ardderchog.

Fel arfer, mae pob cwrs yn costio £120 yr un, ond mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn barod i gynnig lle yn rhad ac am ddim i'r sawl sy'n cofrestru am bedwar cwrs (gwerth £480).

Ewch i wefan y Coleg (www.colegcymraeg.ac.uk/dysguobell) i gael ffurflen gofrestru a danfonwch hi ynghyd â dau eirda cyn gynted ag y bo modd. Y dyddiad cau yw 12 Ionawr 2015.

I gael rhagor o fanylion neu i drafod hyn ymhellach mae croeso ichi gysylltu â mi ar y ffôn neu drwy e-bost (01970 62 8474 / owt3@aber.ac.uk).

Yn gywir,

Dr Owen Thomas

(Cyfarwyddwr y Cynllun Astudiaethau Cyfrwng Cymraeg Rhan-amser)

“Cofio”.

Annwyl Olygydd

Mewn blwyddyn pan roddwyd cymaint o adnoddau i fewn i goffau canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf a chodi cofgolofn yng Ngwlad Belg i'r rheiny o Gymru a gollodd eu bywydau wrth ymladd dros yr Ymherodraeth Brydeinig, mae digwyddiadau hanesyddol eraill wedi mynd yn angof.

Mae achlysur hanesyddol sy'n fwy perthnasol i Gymru, fel cenedl ei goffau, pan ymladdodd a bu farw Cymry dros ryddid i'n Cenedl. Ar Ragfyr 11, 1282, lladdwyd Llywelyn ap Gruffydd, Tywysog Cymru, ynghyd â miloedd o'i filwyr yng nghyffiniau Cilmeri wrth ymyl Llanfair ym Muallt yn ymladd i gadw Cymru yn rhydd o ormes Lloegr. Claddwyd corff Llywelyn yn Abaty Cwmhir. Aethpwyd â'i ben i Lundain fel troffi. Credir i gyrff ei filwyr orwedd mewn bedd torfol o dan gwrs golff Llanfair ym Muallt.

Fel sy'n digwydd bob blwyddyn ers 60au'r ganrif ddiwethaf coffeir y trychineb hwn yn hanes Cymru trwy gynnal seremoni yng Nghilmeri ar y dydd Sadwrn agosaf i Ragfyr 11eg sef Rhagfyr 6ed eleni. Ewch i <http://www.gurfal.com/Cilmeri/index.htm> am fwy o fanylion. Cynhelir hefyd ar ddydd Sul, Rhagfyr 14eg seremoni coffau yn Llys Rhosyr ar gyrion Niwbwrch ar Ynys Môn. Yn Llys Rhosyr mae olion i'w gweld o'r unig un o lysoedd Llywelyn, y cafwyd hyd iddo.

Dylai pawb sy'n dymuno cymryd rhan ymgynnull wrth ymyl Institiwt Niwbwrch am 1.30 o'r gloch. Cyn hynny yn y bore caiff torchau eu gosod ar gofgolofn Llywelyn y tu allan i swyddfeydd Cyngor Gwynedd yng Nghaernarfon am 12.30 o'r gloch.

Os ydych chi'n credu ei bod hi'n bwysig coffau'r rheiny, “dros ryddid collasant eu gwaed”, gobeithiwn eich gweld yn y seremonïau hyn.

Yr eiddoch yn wlatgar

Chris Schoen. Penygroes, Gwynedd

RHODDION

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

£25: Mrs Pricilla Williams, Dinorwig; Rhiaïnn Griffiths, Llundain i gofio am ei mam Dilys Fouracres (gynt o Benisarwaen).

£20: Myra, Euron a'r teulu i gofio Selwyn Griffith; Ellen a Gertie, 4 Hafan Elan, Llanrug; Gwen Jones, 1 Gwelfynydd, Llanrug er cof am ei mam; Seiriol a Vera Davies, Y Ddôl, Bethel. Pat Larsen, Penisarwaun.

£10: Nani Evans, 26 Bryntirion, Penisarwaun; Betty Pritchard, 3 Llys y Gwynt, Penisarwaun; Goronwy Lewis, Stryd Ceunant, Llanberis; Phyllis Jones, 60 Dôl Elidir, Llanberis; Jean Roberts, Treflys, Penisarwaen; Charlotte Evans, 9 Nanty Glyn, Llanrug; Mrs Kathleen Jones, Kemand, Ffordd Glanffynnon, Llanrug.

£5: Eurwen Roberts, 47 Rhydfadog, Deiniolen; Betty Roberts, 25 Rhydfadog, Deiniolen; Jennie Williams, 1 Rhydfadog, Deiniolen; Catrin Hughes, Swyn Eryri, Bethel; Katherine Jones, Y Ddolwen, Bethel; Iwan a Mari Fflur, Glanffynnon, Llanrug; Mrs Jennie Hughes, Bryn Parc, Brynrefail.

Diolch.

Llygad yr Haul

Penisarwaun

Annwyl Gyfeillion

Llawer o ddiolch i chi am yr ymweliadau, y galwadau ffôn a'r cardiau yn dymuno gwellhad buan i mi. Yr oedd hyn i gyd yn fendith ac yn hwb i mi ddod ataf fy hun.

Unwaith eto, diolch o galon i chi bobol garedig y fro.

Patricia Larsen

Parhad LLYTHYRAU

“Lleisiau'r beirdd yn llefaru eto”.

Annwyl ddarllenwyr,

Carwn dynnu eich sylw at Gryno-Ddisg eitha gwahanol a fydd yn cael ei chyhoeddi y mis hwn. Ei henw yw “Lleisiau'r beirdd yn Llefaru Eto”, sef casgliad o feirdd Cymraeg yn darllen rhai o'u cerddi gorau. Mae'r beirdd i gyd ysywaeth wedi'n gadael, felly mae hon yn drysorfa unigryw o leisiau'r gorffennol (pell ac agos) yn llefaru wrthym heddiw. Mae'n dechrau gyda'r unig recordiad sy'n bodoli o Syr John Morris-Jones yn darllen darn o gywydd Goronwy Owen, a recordiwyd ar silindr. Mae'r gweddill, o Cynan i Gerallt Lloyd Owen, o'r bardd o Ryd-ddu i Iwan Llwyd, ac o Waldo i Dic Jones, yn darllen eu cerddi eu hunain. 40 o ddarnau i gyd.

Os ydych am archebu copi o'r CD newydd, gyrrwch siec am £12.98 i SAIN, LLANDWROG, CAERNARFON LL54 5TG, neu ffoniwch 01286 831111 gyda'r archeb, ac os nodwch enw eich papur bro, bydd Sain yn anfon cyfraniad o bunt i'r papur am bob copi a werthir. Bydd “Yn Llefaru Eto” hefyd ar gael yn y siopau Cymraeg.

Dr. Gwyn Thomas oedd yr ymgynghorydd ar y casgliad hwn, ac wrth inni sylweddoli mor brin yw ein harchif genedlaethol o leisiau'n beirdd, mae Sain wedi dechrau ar raglen o recordio beirdd cyfoes yn darllen eu gwaith ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Yn gywir,
Dafydd Iwan

GAIR GANYGOLYGYDD.

Bu'n rhaid gadael nifer o eitemau allan o rifyn Tachwedd oherwydd diffyg gofod. Ymddiheuriadau i'r cyfrannwyr! Ceisiwyd cynnwys rhai ohonynt y mis hwn (os nad ydynt wedi dyddio!). Mae'n bosibl y bydd yn rhaid cadw rhai o gyfraniadau'r mis hwn hyd rifyn y Nadolig hefyd.

Cofiwch mai'r rhifyn hwn a'r rhifyn nesaf yw cyfle busnesau'r fro i ddymuno Nadolig Llawen i'w holl gwsmeriaid: mae'r cyfarchion wedi eu rhannu rhwng y ddau rifyn. Dyma'n cyfle ninnau hefyd i ddiolch i holl fusnesau'r fro am gefnogi'r papur drwy hysbysebu'n rheolaidd ynddo gydol y flwyddyn.

Cofiwch hefyd fod yr oll o'r cyfraniadau ar gyfer rhifyn y Nadolig i fod yn llaw'r golygydd erbyn dydd Sul, Rhagfyr 7fed. Gwnewch yn siwr fod eich cyfarchion tymhorol a'ch newyddion yn cyrraedd mewn da bryd.

Yn ystod y mis a aeth heibio

- Cafodd rhannau o'r ffordd o Lanrug i'r Waunfawr ei hailgylchu – yn llythrennol felly. Codwyd wyneb y ffordd, ei falurio a'i ail-osod yn ôl. Ni ellir disgrifio'r wyneb newydd yn llyfn, ond o leiaf diflannodd y tyllau. Amser (a rhewi a dadmer y gaeaf) a ddengys pa mor llwyddiannus fu'r ail-gylchu.

- Bu gwaith torri gwair ar hyd ymylon ffyrdd y fro. Roedd angen ei wneud, ond o gofio fod Cyngor Gwynedd yn chwilio am ddulliau o arbed arian, oedd angen dwy lori wâg (gan nad oedd y gwair yn cael ei gasglu) y naill ochr i'r peiriant torri?

- Derbyniwyd adroddiad gan 'Caru ein Llyn' (gweler tudalen 21) sy'n canmol safon dwr Llyn Padarn. Dichon y byddai'r Gymdeithas Bysgota lleol yn anghydweld, a theg gofyn pa mor ddi-duedd yw prosiect sy'n cael ei noddi gan y corff sy'n gyfrifol am warchod y llyn, a chorff arall sy'n cael ei gyhuddo o lygru'r llyn.

- Cynhaliwyd gwasanaethau coffa led-led y fro. Roedd eleni'n fwy arwyddocaol o bosibl, gan gofio cychwyn y rhyfel i roi diwedd ar bob rhyfel. A daeth mwy nag arfer mae'n debyg i gymryd rhan yn y gwasanaethau. Tybed nad dull amgenach o gofio fyddai gwirfoddoli i helpu cynnal y sefydliadau a'r neuaddau coffa sy'n parhau i gynnig mannau cyfarfod ar gyfer amrywiol weithgareddau i drigolion ein broydd?

- Gyrrodd fflyd o gerbydau i gopa Moel Eilio gogyfer a ffilmio hysbyseb i gwmni Land Rover (gweler tudalen flaen). Roedd dau gorff cyhoeddus sy'n gyfrifol am warchod yr amgylchedd yn ymwybodol o'r bwriad, ond mae'n ymddangos nad oedd gan Barc Cenedlaethol Eryri na Chyfoeth Naturiol Cymru unrhyw bwerau cyfreithiol i atal y digwyddiad. Pwy felly sydd yn gyfrifol am warchod yr amgylchedd mynyddig bregus hwn?

- Yn ystod Wythnos Diogelwch y Ffyrdd dangosodd ystadegau fod bron i 55,000 o ddirwyon wedi eu rhoi i fodurwyr Cymru am yrru'n ddiofal neu or-yrru yn ystod y llynedd: dirwy bob deng munud! Ac ardal Caernarfon a bro'r 'Eco' oedd y waethaf yng Ngwynedd. Lladdwyd dros gant o bobl ar ffyrdd Cymru, ac anafwyd yn ddifrifol dros fil. Dangoswyd fod un person yn cael ei ladd bob pythefnos ar ffyrdd gogledd Cymru. Galwodd 'Brake', elusen diogelwch y ffyrdd, ar i bob modurwr fod yn fwy gofalus ac yn fwy ystyriol o ddefnyddwyr eraill ein ffyrdd, boed yn feicwyr neu'n gerddwyr. Dyma un o'r ystadegau i fodurwyr y fro ei osgoi ar gyfer y flwyddyn nesaf.

ECO'r
Wyddfa

Cefnogwch ein hysbysebwr



Royal Victoria Hotel LLANBERIS

The ROYAL VICTORIA HOTEL
Snowdonia

Ffôn- 01286-870253
sales@theroyalvictoria.co.uk

Nadolig Llawen
A BLWYDDYN NEWYDD DDA

ODDIWRTH BAWB YN Y GWESTY
DIOLCH AM EICH CEFNOGAETH TRWY'R FLWYDDYN

Priodasau

Dathliadau Achlysuron Arbennig

Cynadleddau Pwyllgorau

Bwydlen Bar

Cinio Dydd Sul



Twrnamaint Rygbi Caernarfon

Llongyfarchiadau i'r plant am gystadlu yn y twrnamaint yn ddiweddar - mae tîm o chwaraewyr ardderchog yn Ysgol Dolbadarn.



Plas Menai - Bu disgyblion Blwyddyn 6 yn ddigon ffodus i flasau gweithgareddau megis hwylio ym Mhlas Menai yn ddiweddar. Yr

oedd pawb wedi mwynhau ac yn awyddus i fentro yno eto.



Pêl-Rwyd

Bu'r plant yn cystadlu mewn twrnamaint Pêl-rwyd ar gyfer Ysgolion Arfon ym Mhlas Silyn yn ddiweddar - da iawn am wneud mor dda genod!



Priodas Ar Awst y 7fed, yng Ngwesty'r Victoria, Llanberis, priodwyd Sharon Wyn Roberts, gynt o 2 Stryd Bethesda, Llanberis, ac Andrew Thomas o Barnsley. Mae'r pâr ifanc yn byw yn Barnsley. Carent ddiolch i'w teulu a ffrindiau am yr holl anrhegion. Diolch o galon.


Ysgol Dolbadarn, Llanberis

Dyma gynrychiolwyr y Cyngor	Ysgol eleni.
Cynrychiolydd Blwyddyn 6	MelodyHastonWilsonCADEIRYDD
Cynrychiolydd Blwyddyn 6	Caio Price
Cynrychiolydd Blwyddyn 5	Jack Booth
Cynrychiolydd Blwyddyn 5	Ffion Harland
Cynrychiolydd Blwyddyn 4	Dafydd Mullane
Cynrychiolydd Blwyddyn 4	Elain Owen
Cynrychiolydd Blwyddyn 3	Caio Jones
Cynrychiolydd Blwyddyn 3	Catrin Morris
Cynrychiolydd Blwyddyn 2	Zoe Hayward
Cynrychiolydd Blwyddyn 2	Sam Booth
Cynrychiolydd Blwyddyn 1	Elin Haf Morgan
Cynrychiolydd Blwyddyn Derbyn	Ioan Williams TRYSORYDD
Cynrychiolydd Blwyddyn Meithrin	CadiThomasYSGRIFENYDDDES

Dyma gynrychiolwyr y Grwp Gwyrdd


Blwyddyn 6	Heti Owen a Thomas Hughes
Blwyddyn 5	Guto Williams a Mali Jones
Blwyddyn 4	Dewi Jones a Mzima Thomkins
Blwyddyn 3	Trystan Torr ac Awel Davies
Blwyddyn 2	Cari a Harri

Llys Genhadon Chwaraeon 2014-5 yw Melody Haston Wilson a Caio Price
Cynrychiolwyr y Siarter Iaith:Jack Booth a Ffion Harland



Bore Coffi Nadoligaidd
Eglwys Sant Padarn, Llanberis
Bore Sadwrn 6ed Rhagfyr am 10yb

Stondinau amrywiol yn cynnwys stondin nwyddau Masnach deg, stondin flodau, stondin gacennau a llawer mwy!
Mynediad (yn cynnwys paned a mins pei) £3, Plant am ddim Dewch yn llu



Beics Menai Bikes

RHAN O DEULU ANTUR WAUNFAWR

BEICS NEWYDD AC OFFER BEICIO
AR GYFER OEDOLION A PHLANT

ANRHEGION 'DOLIG FFANTASTIG!

(01286) 676 804 NEU 07436 797969

BEICS MENAI, 1 Cei Llechi, Caernarfon
E-POST: gary.leadbitter@anturwaunfawr.org

Nadolig Llawn a
Blwyddyn Newydd
Bda oddi wrth
Richard S. Humphreys

Oriel
Cwm
Cwm-y-glo

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882
Gwasanaeth Fframio

Lluniau o bob math ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau gwreiddiol
gan Artistiaid Lleol

Ffair Nadolig
STRYD FAWR LLANBERIS
6.30^{yh}. Nos Iau Rhagfyr 11

Ym
Maes Parcio Gwesty'r "HEIGHTS"

GOLEUADAU'R GOEDEN NADOLIG YMLAEN
TAITH LAMP o'r GANOLFAN am 6 o'r gloch
SAMBA BAND • CANU CAROLAU
Sion Corn yn bresennol gyda chymorth y "Bwrdd Crwn"
STONDINAU CŴN POETH • BBQ
TOMBOLA • CREFFTAU

Mewn Cymeriad - Bu cwmni theatr mewn addysg 'Mewn Cymeriad' yn yr ysgol yn ddiweddar er mwyn cyflwyno gwaith y mathemategydd Robert Recorde, sef y gwr a ddyfeisiodd yr arwydd 'hafal' mewn Mathemateg. Cafodd y disgyblion lawer iawn o sbort yn datrys problemau mathemategol.

Rhaglen 'Ysgol Jac' ar stwnsh - bu disgyblion Blwyddyn 5+6 yng Nghaernarfon yn ddiweddar er mwyn recordio ar gyfer y rhaglen. Yr oedd yr athrawon wrth eu boddau yn cymeryd rhan hefyd a bydd y rhaglen yn cael ei ddarlledu yn fuan.

Plannu - Diwrnod y Gwenyn. Bu disgyblion Blwyddyn 1 yn plannu bylbiau ar dir yr ysgol yn ddiweddar er mwyn cefnogi'r ymgyrch Diwrnod i'r Gwenyn.

Tesco - Bu disgyblion Y Cyfnod Sylfaen ar daith i siop Tesco Caernarfon yn ddiweddar er mwyn cyd-fynd â'r thema bwyd a ffrwythau. Cawsant flasau ffrwythau, cigoedd a chaws o bob math - yr oedd pawb wedi mwynhau yn fawr.

Cyfeillion Plas Pengwaith Enillydd y Bel Bonws am fis Hydref oedd Janet George.

Cyfarchion yr Wyl Dymuna Goronwy o Stryd Ceunant, Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i'w holl deulu a ffrindiau gan na fydd yn anfon cardiau eleni.

Cyfarchion Nadolig Dymuna Mrs Phyllis Jones, 60 Dôl Elidir, Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i'w theulu a'i ffrindiau, gan na fydd yn anfon cardiau eleni.

Y Gymdeithas Undebol Cynhaliwyd y Gymdeithas Undebol yn Capel Coch ar yr 11eg o Dachwedd. Y gwr gwadd oedd Mr Eifion Jones, sydd yn swyddog cyhoeddusrwydd, rhan amser, i Ambiwllans Awyr Cymru. Cafwyd noson ddifyr yn ei gwmni. Cawsom weld fidio o'r Hofrenyddion (mae tair yng Nghymru) a phrofiadau rhai oedd wedi ei hachub. Dilynwyd gyda sgwrs, a thrafod y gost a'r ystadegau, ac amryw beth arall.

Diolch yn fawr i Eifion Jones am y wybodaeth werthfawr a gawsom. Llywyddwyd y noson gan y Parchedig John Pritchard. Rhoddwyd y diolchiadau gan Mrs Gwen Jones a gwnaed casgliad o £110:00 yn ystod y noson at yr achos teilwng hwn. Cafwyd paned a sgwrs ar y diwedd.

Cynhelir y Gymdeithas nesaf ar y 9fed o Ragfyr yn Capel Coch gyda noson o Garolau a Darlleniadau yng nghwmni Mrs Gwenno Pritchard. Y Llywydd fydd y Parch John Pritchard. Ceir paned a mins peis. Mae hon yn agored i bawb a hoffai ddod atom!

Ysgol Sul y Cysegr Erbyn hyn mae'r plant yn cychwyn paratoi ar gyfer y Gwasanaeth Nadolig sydd i'w gynnal eleni ar fore Sul Rhagfyr 21ain. am 10.00. Bydd y te parti i blant yr Ysgol Sul yn dilyn y Gwasanaeth.

Clwb Bro Bethel Yn absenoldeb anorod y Llywydd croesawyd pawb gan yr Is-Lywydd, Geraint Elis. Dymunwyd yn dda i Muriel Jones oedd yn dathlu pen-blwydd arbennig ar ddiwrnod y cyfarfod ac hefyd i'r Llywydd, Y Parchedig Marcus Wyn Robinson, yntau hefyd wedi dathlu yn ddiweddar. Braf oedd cael cyhoeddi fod y Clwb wedi derbyn sic o £150 gan Gyngor Llanddeiniolen. Braf hefyd oedd cael croesawu aelod newydd, sef Seiriol Davies, sydd wedi symud efo'i wraig o Gaerdydd i fyw yn Y Ddôl.

Dafydd Iwan oedd yn annerch yr aelodau a chafwyd ganddo sgwrs gartrefol braf yn hel atgofion am y profiadau amrywiol roedd wedi derbyn wrth fynd o amgylch y wlad i ganu. Roedd wedi dod â'i gitâr hefyd a bu'n canu nifer o ganeuon yn ystod y sgwrs gan

ddiweddu efo'r ffefryn 'Yma o Hyd'.

Diolchwyd yn gynnes iawn i Dafydd Iwan ac i ferched y te gan Richard Ll. Jones.

Dathlu gyda chinio Nadolig fydd pawb y tro nesaf a hynny ar ddydd Mercher, Rhagfyr 3ydd. Bydd bws yn cychwyn o Penrhos am 11.15 i gludo pawb i Fangor.

Cymdeithas Lenyddol Undebol

Agorwyd gweithgareddau'r Gymdeithas am eleni yng nghwmni Ilid Anne Jones ac yn dilyn croeso gan Lywydd y Gymdeithas, y Dr J. Elwyn Hughes cafwyd ganddi sgwrs ar y gantores Leila Megane. Roedd pawb yn gyfarwydd â'r enw ond heb fod yn gwybod llawer o'i chefnidir, ond erbyn diwedd y noson roedd hanes ei bywyd wedi dod yn fyw i bawb drwy gymorth sgwrs a lluniau. Diolchwyd iddi gan Glenys Griffiths ac i'r merched am baratoi lluniaeth i bawb ar ddiwedd y noson. Bydd y cyfarfod nesaf nos Fawrth, Tachwedd 18fed. gyda John Williams, Llanllyfni yn sgwrsio am ei brofiad fel Tywysydd yn y Gemau Olympaidd, Llundain.

Merched y Wawr Mair Price, y llywydd estynnodd groeso i bawb i'r cyfarfod. Cyfeiliwyd i gân y mudiad gan Glenys Griffiths, a llongyfarchwyd Ellen Ellis ar ddod yn nain i Eila Mari, mae Eila yn ffurf Gernyweg o Ellen, a chroesawyd Carol i'n plith.

Mair a Rita osododd dorch ar ran y gangen ar Sul y Cofio, a chafwyd gwasanaeth hyfryd wedi ei drefnu gan staff a disgyblion hynaf yr ysgol gynradd.

Pleser oedd cael cwmni Angela Evans o Siop Iard, Stryd y Plas, Caernarfon, sy'n arbenigo mewn gemwaith arian yn bennaf. Cawsom eglurhad ganddi am ddylanwad ei nain, hefyd dylanwad ei hymweliadau â gwledydd tramor ar ei gwaith. Erbyn hyn, yn ogystal a chynnal y siop yng Nghaernarfon gyda Ann Catrin a Dave Steven, mae'n cynnal gweithdai gydag eraill ym Mharc Glynllifon. Daeth â chasgliad o'i gwaith cywrair i ni eu gweld a chafodd yr aelodau gyfle i holi ar ddiwedd y cyfarfod. Diolchwyd i Angela gan Jen.

Diolch i Glenys a Delyth Williams am ofalu am y baned a'r raffl, a'r enillydd lwcus oedd Eryl Roberts.

Edrychwn ymlaen at ein cinio Nadolig yng Nghaffi'r Felin, Pontrug, ar nos Fercher, Rhagfyr 10fed a bydd y bws yn gadael y Cysegr am 7 o'r gloch.

Bu i ddau dim o'r gangen gystadlu yn y Cwis Hwyl Cenedlaethol a chawsant fwynhad a'r lluniaeth yn ardderchog.

Diolch Dymuna Catrin Hughes, Swyn Eryri, ddiolch o galon i bawb am bob caredigrwydd yn dilyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd ac Ysbyty Glan Clwyd.

Te MacMillan Diolch o galon i bawb am gefnogi'r Te MacMillan yn y Neuadd Goffa. Codwyd £576.40 tuag at yr achos.

Bore Coffi Ar ran Uned Apêl Cancr a Haematoleg Alaw, diolch yn fawr i drigolion y pentref a chyfagos am eu haelioni ac am y gefnogaeth yn y bore yn y Neuadd Goffa yn ddiweddar. Fe godwyd £661.10 tuag at yr apêl.

Trwsio ac Adnewyddu Dodrefn

Wedi torri darn o ddodrefn?
Hoff gelfi wedi mynd i edrych yn drist?
Cysylltwch â ni i roi bywyd newydd i'ch trysor

Dennis & Julie Jones

01286 650255



SEFYDLWYD DROS 20 MLYNEDD

SYMUD A CHADW

CLIRIO TAI A GAREJ (Unrhyw Bellter)
CLIRIO AR OL PROFEDIGAETH
Yswiriant Llawn Domestig a Masnachol

01248 430126 • 07786176866
thomasmeredydd@btinternet.com

Cofiwch Ddefnyddio

SWYDDFA POST BETHEL

(01248) 670261

CEWCH CROESO CYNNES GAN CLED A SUSAN A'R TEULU

COFIWCH AM EIN GWASANAETH NEWID PRES TRAMOR YSWIRIANT, TALU BILIAU ETC.

Yn Ogystal a

Gwasanaethau Arferol Swyddfa'r Post

A HEFYD PAYPOINT, LOTERI, A PHEIRIANT TYNNU PRES (CASHBACK)

DIOLCH AM EICH CEFNOGAETH DRWY'R FLWYDDYN

a Nadolig Ulaflen A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB

ORAU AGOR

5.30am-7.30pm (Llun-Sadwrn)

5.30am-3pm (Sul)

10am-12pm (Diwrnod Nadolig)



YSWIRIANT FUW



Hoffech chi hybu
BWYD LLEOL
BUSNESAU CEFN GWLAD
ECONOMI WLEDIG

Trwy gefnogi Yswiriant FUW?
Yswiriant car, tŷ neu unrhyw fusnes

Dafydd P. Jones 01492 642683
Dwyrain Sir Gaernarfon

Buddsoddi yn eich cymuned

Mae Undeb Amaethwyr Cymru wedi ei awdurdodi a'i reoli gan Awdurdod y Gwasanaethau Ariannol. Yng nghyd-destyn cyfryngu yswiriant o dan Rhif Cofrestru 308935

Straeon Gorau'r Byd gan Caryl Lewis



Mae Caryl Lewis, a bleidleisiwyd yn 'Hoff Awdur Cymru' yn dweud iddi gael ei hysbrydoli gan ei mam yn adrodd straeon wrthi pan oedd yn eneth:

"Roedd Mam yn dweud straeon o bedwar ban byd wrthyf i pan oeddwn i'n ferch fach. Roeddwn i'n dwli ar yr enwau rhamantus, y cymeriadau rhyfedd a'r straeon gogoneddus. Yn sicr, mae clywed y straeon hynny yn ifanc wedi fy sbarduno innau i fentro ysgrifennu straeon fy hunan. Mae gen innau ddau blentyn bellach ac rwyf innau'n ceisio cyflwyno'r un math o straeon i'w plesio a'u cyffroi hwythau."

Wrth gynnal y traddodiad dweud straeon o fewn ei theulu ei hun, mae wedi llunio casgliad hudolus o ddeg o straeon byd-eang sy'n tanio dychymyg y plant.

Eisteddwch yn gyfforddus felly a mwynhewch y wledd hon a gwibio o Mozambique i Nigeria gan alw yn yr Eidal, Cymru, Japan, Gwlad Pwyl, Unol Daleithiau America, Canada, Rwsia a Kazakhstan. Bydd y lluniau lliwgar yn siwr o apelio hefyd a rhoi blas ychwanegol o'r gwledydd hynny i chi.

Llun atodol: Caryl ac Aled a'r plant yn mwynhau stori Gwasg Carreg Gwalch; Pris £8.50


DMM
CLIMB NOW WORK LATER

**Nadolig
Llawen
A BLWYDDYN
NEWYDD DDA**

**Oddiwrth
BAWB yn**

**DMM
LLANBERIS**

www.dmmwales.com

HO! HO! HO!

**Nadolig llawen a blwyddyn newydd dda
oddi wrth pawb yn**

Amgueddfa Lechi Cymru Llanberis
Diolch yn fawr am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn!

**FFAIR
GAEAF**
30.11.2014

**Mae'r amgueddfa ar agor
drwy'r flwyddyn* - dewch am dro!**

(*Ar gau Sadyrnau yn y gaeaf)
(Ar gau 24, 25, 26, 27 Rhagfyr 2014 a 1 Ionawr 2015)

Amgueddfa Lechi Cymru,
Parc Padarn, Llanberis
☎ 02920 573700
www.amgueddfacymru.ac.uk



**national
slate
museum
amgueddfa
lechi
cymru**



Cyfraniad Gwerthfawr Yn ystod yr haf cymerodd Dylan Rhys, Eryri Wen, Stad Bod Hyfryd, Elgan ei fab, a Mareid ei ferch, ran yn ras noddedig 10K Gary Speed ym Mae Colwyn. Cyflwynodd y tri

siec am £800 i gronfa Ambiwlans Awyr Cymru. Arbennig o dda, ynde! Llongyfarchiadau a diolch yn fawr i'r tri.

Y Clwb 300 Enillwyr y Clwb 300 am fis Hydref oedd: £30: Mr Alfie Jones, Hafod y Rhug; £20: Mrs M.E. Overbury, d/o Mrs C. Jones, Bryn Gwenallt; £10: Ms Hawys Tuff, Crymllwyn, Llys y Waun.

Llwyddiant Mawr Yr wythnos hon cyhoeddwyd llyfr am dîm pêl-droed Caernarfon a'r awdur yw Paul Evans, Rhoslyn. Mae'r llyfr yn 'gwerthu fel slecs'. Llongyfarchiadau i Paul am waith sydd wedi apelio'n fawr at gefnogwyr tîm pêl-droed Caernarfon.

Eglwys y Waun Yn ystod gwasanaeth arbennig yng Nghapel Coch, Llanberis, derbyniwyd Mr Iwan Roberts, Tre Wen, a Mr Tudur Pritchard, Cae'r Waun yn flaenoriaid i Eglwys y Waun.

Bedydd Fore Sul, Tachwedd 12il yn ystod gwasanaeth arbennig yn Eglwys y Waun a'r

Parchedig Gwenda Richards yn gwasanaethu bedyddiwyd Noah, mab bach Sioned a Jamie, Prestatyn a Hafod y Rhug yma yn y Waun.

Babanod Bach Newydd Llongyfarchiadau i Ellen a Liam Rowlands, Arfon House, ar enedigaeth eu merch fach, Ava. Mae Ava yn wyres gyntaf i Allison a Graham Rowlands a gor-wyres i Gwendoline Rowlands.

Daeth wyres fach newydd i Morus ac Ann Elfryn, Coed Gwydryn hefyd. Ganwyd Betsan Llwyd i Gwenno a Deian Elfryn. Cyfnither a ffrind newydd i Lili.

Daeth Lois fach, Dôl Gwyrfa, Stad Bod Hyfryd yn chwaer fawr i Osian Llewelyn, mab bach i Elin a Siôn Emyr Wynne. Bydd Lois yn si?r o helpu mam a dad i edrych ar ei brawd bach.

Llongyfarchiadau i Mrs Grace Dawson, Stad Tref Eilian, ar ddod yn hen nain.

Ganwyd mab, Owain John, i'w ?yr, Dylan, a'i gymar, Serah. Yng Nghaernarfon mae'r teulu bach yn byw.

Dathlu Pen-blwydd Arbennig Yn ystod y mis bu Dafydd Lloyd Williams, Gwastadfaes yn dathlu ei ben-blwydd yn ddeunaw oed.

Llongyfarchiadau iti, Dafydd, a phob dymuniad da i'r dyfodol. **Llongyfarchiadau** hefyd i William, Arosfa, ar gyrraedd ei ddeunaw oed. Dymunwn y gorau iti yn dy yrfa ac i'r dyfodol.

Anfon ein Cofion Croeso adref o'r ysbyty i Mrs Kit James, Stad Tref Eilian; Mr Richard Charge, Llifon a Mr John Ellis, Ty'n Llidiart wedi iddynt gael triniaethau yn yr ysbyty.

Hyderwn yn fawr y byddwch yn gwella wedi cael dod adref yn ôl i'ch cynefin.

Profedigaeth Yn dawel yng Nghartref Nyrsio Cerrig yr Afon, bu farw Mrs Laura Pierce, Ty'n Twll Mawr. Cydymdeimlwn yn ddwys â'i mab, Gareth a'i wraig Ceri a'r ddwy wyres fach yn eu colled a'u hiraeth am fam a nain annwyl.

Yng nghwmni ei deulu yn Ysbyty Gwynedd yn dawel bu farw Mr Howie Edwards, Aneddle, Stad Bod Hyfryd. Cydymdeimlwn yn ddwys â Helena ei briod, ei ferch Glenda ac Aled ei chymar a'i ?yr bach a'r teulu yn eu profedigaeth a'u colled fawr o golli un annwyl

Gwasanaethau Eglwys y Waun

Rhagfyr 7:

Rhagfyr 14: Y Gweinidog

Rhagfyr 21:

Rhagfyr 28: Y Gweinidog

NADOLIG LLAWEN A Blwyddyn Newydd DDA

I holl ddarllenwyr ECO'R WYDDFA
oddiwrth BAWB yn



Diolch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn
Ffôn-(01286) 872304

DODREFN PERKINS

2 Ganolfan Pen-llyn, Caernarfon, Ffôn (01286) 676040
Hefyd yn-16 Stryd Porth Mawr. Caernarfon Ffôn (01286) 673535

Pob math o ddodrefn tŷ
Cegin • Ystafell Fyw • Lloft
—— PRISIAU CYSTADLEUOL ——
Carpedi • Llenni a Lloriau Pren

Ffon- (01286) 676040

Dathlu y Nadolig Hoffai Pwyllgor Cae Chwarae Caeathro eich gwahodd i ddathlu'r Nadolig yng Nghanolfan y Capel nos Lun, Rhagfyr 15ed o 5o'r gloch ymlaen. Bydd stondinau crefft lleol, lluniaeth poeth, raffl Nadolig, a chystadlaethau felly cofiwch ddod â'ch siwmpwr Nadolig, bydd gwobr am yr orau! Diweddir y noson drwy ganu carolau o gwmpas y goeden gyda Seindorf Llanrug. Am fwy o fanylion cysylltwch â Hannah Hughes ar 07816 316 236.

Gwasanaethau y Capel

Rhagfyr 7ed. - Y Parch Marcus Robinson am 2 o'r gloch, ac yn dilyn am 3 o'r gloch cynhelir cyfarfod o'r swyddogion.

Rhagfyr 21ain am 5. 30 - cynhelir gwasanaeth arbennig i ddathlu y Nadolig gyda'r bobl ifanc, aelodau y capel a'r Gweinidog. Estynnir croeso cynnes i bawb.

Ar ddydd Nadolig cynhelir oedfa gymun i'r ofalaeth gyfan yng Nghapel Cysegr, Bethel am 10.30 y bore.

Bore Coffi McMillan Er bod sylw byr wedi ei gynnwys y mis diwethaf i'r ymdrech arbennig yma ar Fedi 27ain braf yw nodi bod yr elw bellach bron yn £600, sydd yn swm ardderchog i bentref bychan. Mae'r trefnwyr am ddiolch i'r A.S. Hywel Williams ac i Alun Ffred am alw i mewn; i'r nifer oedd wedi bod yn coginio bob math o gacennau blasus; i'r rhai oedd mor barod i roi raffl; i bawb roddodd yn hael yn ariannol ac i'r stondinwyr ychwanegol a ddaeth i gefnogi. Diolch yn arbennig i Llio Jones a wnaeth y paratoadau mor drylwyr ac i'r gwirfoddolwyr am ei chynorthwyo. Heb ymdrechion fel hyn ni allai mudiad Mcmillan barhau i gefnogi y rhai sydd yn dioddef o gancr .Diolch o galon.

Tynfa Misol Dyma enillwyr mis Tachwedd: 1af £40 Leti Williams, 'Refail (22); 2il £25 Karen Element, Glan Gwna (19); 3ydd £15 Meinir Herring, Tyddyn Ucha Bach (9) ;4ydd £5 Viv Morgan, Tyddyn Ucha (6).

Cartref Newydd Croeso i Sasha a Kevin sydd wedi dod i fyw i 3 Hên Gapel. Mae Sasha yn hen gyfarwydd â Chaeathro gan ei bod yn wyres i'r ddiweddar Doris Muhlenfeld oedd yn byw yng Nghaeathro am flynyddoedd lawer.

Yn Cwyno Drwg gennym ddeall fod Myfi Peris Evans yn cwyno ac yn gorfod mynd a dod i Ysbyty Gwynedd ac yn cael triniaeth yn Ysbyty Glan Clwyd ers rhai wythnosau. Mae Myfi yn un o'r personau sydd yn mynd â'r Eco o ddrws i ddrws. Yr ydym fel ardal yn dymuno adferiad llwyr a buan iti, Myfi. Mae colled ar dy ôl am sgwrs ac hefyd am y gwaith da yr wyt yn ei wneud hefo'r Eco. Felly brysia yn ôl wedi gwella. Mae yn chwith peidio dy weld yn cerdded hyd yr ardal. Pob lwc.

Adref o'r Ysbyty Da yw deall fod Hannah Mary Roberts wedi gwella yn ddigon da i gael dod adref ar ôl ei damwain. Mae hefo Annette ac Olwen ac ar adegau yn Ty'r Ysgol. Hannah, cymer ofal a bydd yn ara deg ar y dechrau 'ma rhag ofn damwain arall. Yn falch o ddeall dy fod wedi gwella mor dda, ac yn ôl yn dy gynefin.

Dathlu'r Cant Cafodd Mrs Pricilla Williams (Anti Cil) fwyniant mawr ar ddiwrnod ei phen-blwydd yn 100 oed. Yr oedd yn mwynhau ei hun ac yn cael cryn hwyl hefo'r holl bobl wnaeth alw yn 'Wylfa' ar y diwrnod mawr. Dydd o fwynhau a dwyn atgofion iddi oedd, ac o gwmpas y naw o'r gloch dywedodd wrth Als ei bod eisiau bwyd a chyn mynd i'w gwely fe fu raid iddi gael sgloodion ac wy.

Dymuna ddiolch o galon i'r teulu oll, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau, anrhegion a'r galwadau ffôn.

Diolch arbennig i Alwyn ac Eirwen, a hefyd i Idris Thomas am adrodd ei hanes yn yr Eco, ac hefyd i blant Ysgol Gwaun Gynfi am y cerdyn mawr a'r anrheg. Diolch yn fawr i bawb ym Mro'r Eco ac ymlaen yn awr am y 101. Pob bendith.

Capel y Tabernacl Peth cyffredin y dyddiau hyn yw clywed am gapeli ac eglwysi yn cau a dydd Sul, Hydref 19eg, cynhaliwyd y gwasanaeth olaf yng Nghapel y Tabernacl, gan ddod â'r achos i ben.

Tristwch oedd gweld drws y trydydd a'r olaf o addoldai yn y pentref yn cau am y tro olaf.

Yn ystod y gwasanaeth gweinyddwyd Sacrament y Cymun gyda'r Parchedig Gwynfor Williams yn gwasanaethu. Cafwyd anerchiad calonogol gan y Parchedig Ddr Geraint Tudur, Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg gan fynegi, er y cyfan sy'n newid o'n cwmpas, gallwn fod yn hyderus y bydd Cristnogaeth yn parhau a bydd Y Ffydd i'r dyfodol yn datblygu mewn ffyrdd gwahanol i rai y gorffennol, ond y dulliau o'i fynegi yn newid.

Daeth Mr Ifor G. Evans, Ysgrifennydd Cyfundeb Gogledd Arfon â'r gwasanaeth a'r achos i ben drwy ddatgorffori'r Eglwys.

Yn yr Ysbyty Anfonwn ein cofion gan ddymuno gwellhad buan i Mrs Dilys Jones, 3 Maes Gerddi, ar ôl derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd ac sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Eryri, Caernarfon.

Cydymdeimlad Estynnwn ein cydymdeimlad â Dafydd Price a'r teulu, Tan y graig, yn ei brofedigaeth o golli ei chwaer.

Undeb y Mamau Cyfarfu'r aelodau a'u ffrindiau ym Mron Menai Caernarfon pnawn Mawrth, Tachwedd 18, i fwynhau eu cinio Nadolig. Cafwyd cinio blasus iawn a mwynhawyd y pnawn gan bawb. Diolchwyd i staff Bron Menai ac i Auriel Howels am drefnu'r achlysur gan y Rheithor Parch R. Donaldson.

Rhagfyr 13: Bore mins peis yn Feed my Lambs rhwng deg y bore a hanner dydd.

Rhagfyr 16: Gwasanaeth Carolau yn Eglwys Sant Mair am ddau o'r gloch

Nadolig Gan na fydd Eurwen Roberts, 47 Rhydfadog, Deiniolen yn anfon cardiau Nadolig eleni fe ddymuna Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i'w theulu, ffrindiau a chymdogion.

Mae Betty Roberts, 25 Rhydfadog yn dymuno Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i'w theulu a ffrindiau a chymdogion am nad yw yn gyrru cardiau y flwyddyn hon.

Gan nad wyf yn anfon cardiau Nadolig eleni eto, rwyf yn dymuno Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd dda i'm holl ffrindiau a chymdogion. Hwyl yr Wyl i chwi oll. Jennie Williams, 1 Rhydfadog Deiniolen.

Gweithgareddau Nadolig Gwyl Deiniolen Cynhelir nifer o weithgareddau'r Nadolig eto eleni gan Wyl Deiniolen a'r Cylch:

Noson rhoi goleuadau Nadolig y pentref ymlaen gyda adloniant gan Côr Cynfi - Ty Elidir ar Tachwedd 28ain am 6.00.

Disgo Siôn Corn - Ty Elidir Rhagfyr 13eg 4.00 - 6.00

Siôn Corn ar daith trwy'r pentref - Rhagfyr 21ain

Cymdeithas Lenyddol Undebol Deiniolen Cynhaliwyd y Gymdeithas Undebol nos Lun, Hydref 27ain, yn Nhy Elidir, o dan lywyddiaeth Y Parch J. Pritchard a chroesawyd Mr Geraint Jones, Trefor, a'i wraig Jina atom. Cafwyd noson ddifyr dros ben yn sôn am y crwydryn John Preis a oedd yn hanu o Gapel Uchaf ac y cafwyd ei hanes yn y gyfrol ddiweddaraf o waith Geraint Jones a gyhoeddwyd yn gynharach eleni. Diolchwyd iddo yn gynnes gan Mr John Llywelyn Williams.



Enwau ddoe a heddiw ym Mwlch Llanberis.

Ar ddamwain hollol y deuthum ar draws hanes 'Taith o Lanberis i Gwmdyli' gan Ioan Gwynant yn yr Herald Cymraeg, fis Awst 1914. Yn ogystal a disgrifio'r daith, y golygfeydd ac ambell i chwedl am y cymeriadau fu'n byw yn y dyffryn, mae hefyd yn enwi'r mynyddoedd, y cribau, y cymoedd, a'r clogwyni a'r creigiau a welai ar y ffordd. Mae'n eu rhestru yn eu trefn wrth deithio i fyny'r Bwlch, gan enwi pob un ar yr ochr chwith gyntaf, yna'r rhai ar y dde.

Am rhyw reswm nid yw'n dechrau enwi tirweddau'r ochr chwith nes cyrraedd y fan ble mae'r afon Las yn hyrddio i lawr o'r Gludair i Wastadnant. Ar 'dalcen y Glydar' meddai y mae'r creigiau canlynol: Brest y Geifr, Braich Llwyd, Y Graig Ddu Bach, Y Graig Ddu Fawr, Gallt y Gwail, Craig y Geifr, Ysgor Dderw, Ceunant Syr Evan, Clogwyn Tyllau, Y Garreg Wastad, Yr Egwyl Coch, Dinas y Gromlech, Bryn Melyn Graig, Castell y Graig, Ysgar Maen Gwyn, Y Graig Las, Rhiwiau a Clogwyn Du y Rhiwiau.

Mae'n cychwyn enwi tirweddau'r ochr dde ger Castell Dolbadarn uwch Llyn Peris, sef: Esgeiriau, Cwm Aelhir, Derlwyn, Pen yr Ola, Carreg y Fran, Bwlch Llannerch Goch, Gallt y Llan, Tryfan Fawr, Tryfan Bach, Pen Bol Du, Bwlch Cwm Gorllwyn, Bryn Gorllwyn, Bwlch Bryn Llys, Bryn Llys, Llechog, Bwlch Penllyn, Gyr Las, Cwm Ffynnon Goeg, Chwrennog, Crib y Ddysgl, Crib Goch, Clogwyn y Person, Diffwys ddwr, Dinas Spot, Clogwyn Mawr y Diffwys, Y Diffwys, Bwlch y Moch a Carreg Walch. Dywed Ioan Gwynant fod Cwm Ffynnon Goeg yn cael ei adnabod bellach fel Cwm Hetiau.

Enwau Nant y Betws.

Gan fod Deio Cwm Brwynog wedi mentro dros Fwlch Maesgwm am Glogwyn y Gwin yn rhifyn Tachwedd o'r "Eco", fe arhoswn yn y dyffryn hwnnw, a dilyn yr afon ble bu bron iddo foddi, drwy Lyn Cwellyn ac i lawr i gyfeiriad Salem, Betws Garmon. Gan Gwilym Morris o'r Waunfawr y cefais gopi o draethawd yn disgrifio yr ardal rhwng Llyn Cwellyn a Phistyll Cerrig y Rhyd. Does dim dyddiad i'r traethawd, ond mae'n disgrifio sythu cwrs yr afon a difetha'r holl ddolennau oedd yn troelli ar draws y weirgloddiau. Pryd y digwyddodd hynny tybed?

Mae'r awdur yn son am nifer o leoedd ar hyd cwrs yr afon Gwyrfaï yn y rhan hon o'r dyffryn. Mae'n cychwyn gyda Beudy Storws – ond nid yw'n ei leoli – a dim ond adfail sydd yno ar ddyddiad sgwennu'r traethawd.

Rhwng Beudy Storws a Llyn Cwellyn roedd ynys wedi ei ffurfio yn yr afon, a'r enw a roid arni oedd Llain y Gwystl, sef rhimyn cul o dir, a llifyr afon, yn enwedig wedi stormydd trwm o law, yn newid ei ffurf yn barhaus. Cai Llain y Gwystl ei adnabod gan drigolion Nant y Betws fel 'tir neb', ac yr oedd iddi bwrpas arbennig. Os byddai dau eisiau gwneud cytundeb, cymodi, gwneud addewid neu hyd yn oed fenthycu arian, yna byddent yn trefnu i gyfarfod ar 'dir neb' i gwblhau'r fargen. Byddai cytuno ar Lain y Gwystl yn gwarantu y cedwid at y fargen. Yn rhyfedd iawn, ar gatalog gwerthiant rhan o hen stad Plas y Nant yn 1893, enwir tri o gaeau Ty'n y weirglodd yn Pant y Gwystl. Yn anffodus, does dim map yn cyd-fynd a'r catalog, ac felly, nid yw union leoliad y caeau yn wybyddus. Yr un mor ddiddorol, mae Geiriadur Prifysgol Cymru yn egluro 'gwystl' fel 'sicrwydd y cyflawnir addewidion... ernes y perchir cytundeb a chadw'r heddwch.' Tybed beth yw gwir darddiad yr enw hwn yn Nant y Betws?

Wrth ymyl ffermdy Ty'n y weirglodd roedd safle'r Capel Main. Amser sgwennu'r traethawd, dim ond darn o un o'r muriau oedd yn dal i sefyll. Mwy na thebyg fod y cyfan wedi mynd erbyn heddiw. Ond beth oedd y Capel Main? Yn ol traddodiad deuai addolwyr yno o Ddrws y Coed, gan groesi'r afon yn Llain y Gwystl. Faint tybed o wirionedd sydd yn yr hanes hwn? O

Ganrif union yn ol felly, a dyma'r enwau oedd yn gyfarwydd i drigolion ardal Bwlch Llanberis, o Nant Peris i Ben Gorffwysfa, ac mae'n bosibl mai'r fersiwn llafar a roddir yn y rhestr (sylwer mai 'Glydar', y ffurf llafar a ddefnyddia), ond nid bob amser (Cwm eilir a ddywedir yn llafar am Cwm Aelhir).

Yn anffodus, wrth gwrs, does dim sicrwydd o leoliad yr holl dirweddau hyn, er fod enwau nifer ohonynt yn parhau i gael eu defnyddio, a nifer ohonynt hefyd wedi eu cofnodi ar fapiau.

Doedd dim amdani felly, ond chwilio hen fapiau. Gan fod y daith wedi ei cherdded ym mis Awst 1914, naturiol oedd edrych ar Fap Arolwg Ordnans y flwyddyn honno, a chychwyn ger Afon Las, yn union fel y gwnaeth Ioan Gwynant. Dyma'r enwau a geir ar y map: Graig Ddu, Craig y Geifr, Garreg Wastad, Dinas Gromlech a Bryn Du, gydag Esgair Felen rhyngddynt a'r Gludair. (Mae Esgair Felen wedi ei henwi ar bob map bron, ond ni sonnir amdani gan Ioan Gwynant!) Mae triarddeg o enwau ychwanegol am y rhan hon o'r Bwlch gan Ioan Gwynant.

Ar ochr arall y Bwlch, mae Cwm Aelhir, Derlwyn (er mai Derwlwyn a gofnodir), Gallt y Llan, Tryfan a Llechog wedi eu cofnodi ar Fap 1914. Ond ceir hefyd yr enwau Clogwyn Mawr (ble roedd yr hen waith copr uwchlaw Llyn Peris) a Clogwyn Llwyd (ar draws yr afon gyferbyn ac Eglwys Nant Peris); enwau na chofnodir gan Ioan Gwynant. Mae Gyr Las ar y map fel Gyrn Las, ond mae'r lleill i gyd yn absennol ar wahan i gopaon fel Crib y Ddysgl a Chrib Goch.

Prin iawn yw'r enwau ar Fap Arolwg Ordnans 1889, ond enwir Clogwyn Mawr ger yr hen waith copr; enw na chofnodir gan Ioan Gwynant.

Mi wyddoch yn iawn beth sy'n dod nesaf! Bobol Nant Peris neu unrhyw un a chysylltiad a'r ardal, a glywsoch chi'r enwau hyn? Wyddoch chi ble mae'r creigiau a'r clogwyni? Rwyf eisoes mewn cysylltiad ac un o swyddogion yr Arolwg Ordnans, ac y mae ganddo yntau ddiddordeb mewn cael gwybod lleoliad yr holl dirweddau a enwir. Y gobaith yw cynnwys rhai, os nad y cyfan ar fapiau O.S. y dyfodol. Felly, codwch y ffon a chysylltwch ar fyrder.

ddarllen Hanes Wesleaid Cymru cawn wybod am achos cynnar a ddarfu yr un mor gynnar yn Nhy'n y weirglodd. Dywedir fod yno gapel bychan iawn. Tybed ai hwn oedd y Capel Main? Ond yn Hanes Methodistiaeth Arfon, nid yw'r darlun mor eglur. "Cyn i'r Methodistiaid ddechrau cadw ysgol yng Ngherrig y Rhyd a Bron y fedw, yr oedd y Wesleaid wedi bod yn cadw ysgol yn sgubor Plas isa am dymor cyn adeiladu capel Salem neu Dy'n y weirglodd." Mae'n ymddangos felly i'r Methodistiaid godi y Salem gwreiddiol yn Nhy'n y weirglodd, ac mai yn 1841 yr adeiladwyd y Salem a welir heddiw. Y capel cyntaf hwn, mae'n debyg, oedd y Capel Main. Mae'n ymddangos fod y gred am gyrchu yno o Ddrws y Coed yn wir hefyd. Fel hyn yr adroddir yr hanes: "Byddent yn dod o...waith Drws y Coed, dros Fwlch y Moch, ar hyd ochr y Plannwydd a thrwy gors Cwm Bychan. Roedd ganddynt blanc ar draws yr afon i ddod i Ddol y Bala." Nid dilyn y lon bresennol a wna'r addolwyr felly, ond y llwybr ar hyd godre'r Mynydd-fawr a Chraig Cidwm am Gwm Bychan.

Efallai fod a wnelo hynny a Chwirt, sydd hefyd yn cael sylw yn y traethawd, ond nid yn cael enw da. Mae Cwirt bellach yn adfail hollol, ar ochr chwith y ffordd fawr cyn croesi'r rheilffordd a chyrraedd Castell Cidwm. Yn y dyddiau fu cai enw drwg iawn fel cyrchfan lladron. Byddent yn llechu yma yn disgwyl amaethwyr yr ardal ddod o ffeiriau Caernarfon a'u pocedi'n llawn arian ar ol gwerthu eu hanifeiliaid. Byddai rhai yn osgoi'r Cwirt drwy groesi Pont Cerrig y Rhyd a mynd heibio i Gwm Bychan; eraill yn croesi Llain y Gwystl am odre Craig Cidwm ac ymlaen wedyn am Ddrws y Coed, Beddgelert neu Gwm Pennant.

Drwy sythu'r afon, cafodd 'ynys' Llain y Gwystl ei difetha am byth. Tybed oes yna unrhyw un yn Nant y Betws heddiw sy'n gwybod am leoliad Beudy Storws a'r Capel Main, neu wedi clywed am Lain y Gwystl?

Yn y rhifyn nesaf cawn hanes y Caeau Uchaf, Waun Gynfi, a'i gysylltiad a Phlas Pentir, a hanes ymweliad a Chwt Geifr posibl ar lethrau'r Foel Gron. Anfonwch unrhyw wybodaeth am enwau Bwlch Llanberis a Nant y Betws; neu unrhyw ymholiad am agweddau o hanes bro'r "Eco" i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. (Ffon: 01286 673515).

Lansio gwobr opsiynau iach yng Ngwynedd

Gyda phwysigrwydd bwyta allan yn ein bywydau'n cynyddu, mae mwy ohonom yn chwilio am ddewisiadau iach. Bydd Gwobr Opsiynau iach mewn sefydliadau bwyd yn gwneud y dewisiadau hyn yn llawer haws o hyn allan.

Mae Gwobr Opsiynau Iach yn ceisio annog busnesau bwyd i gynnig dewisiadau iachach i gwsmeriaid, drwy:

- defnyddio arferion arlwyio iachach
- defnyddio rhagor o ffrwythau, llysiau a charbohydradau startsh
- lleihau'r defnydd o fraster, yn enwedig braster dirlawn, siwgr a halen.

Mae'r wobwr hefyd yn cydnabod darparu dewisiadau iach i blant, ac yn gwobrwyo hyfforddi staff a hyrwyddo a marchnata dewisiadau iachach.

Mae tair lefel wahanol i'r Wobr gall sefydliadu bwyd ennill - Efydd, Arian ac Aur, a gaiff ei symboleiddio gan logo afal gyda hadau siâp calon wedi ei arddangos.

Dywedodd y Cynghorydd Mair Rowlands, Aelod Cabinet Byw'n Iach Cyngor Gwynedd:

'Wrth i fwy a mwy o bwyslais gael ei roi ar fyw bywydau iachach, mae'n bwysig bod yr adnoddau a'r cymorth yno i alluogi trigolion i wneud y penderfyniadau iachach. Yn wir, gall safleoedd sy'n gwerthu bwyd gyfrannu'n helaeth at wella diet ac iechyd eu cwsmeriaid drwy gynnig dewisiadau bwyd iachach a hysbysebu eu cwsmeriaid ohonynt.

'Byddwn yn annog unrhyw safle gwerthu bwyd yng Ngwynedd i ymgeisio am y wobwr yma, a chyfrannu at nod y Cyngor o annog trigolion Gwynedd i fyw bywydau iachach.'

Mae'r wobwr yn agored i holl sefydliadau sydd yn gwerthu bwyd i'r cyhoedd yng Ngwynedd, ac sydd hefyd yn cydymffurfio'n fras â deddfwriaeth hylendid bwyd megis bod gennych sgôr o 3, 4 neu 5 dan y Cynllun Cyfradd Hylendid Bwyd Cenedlaethol.

Os oes gennych chi ddiddordeb mewn ennill Gwobr Opsiynau Iach i'ch sefydliad bwyta chi, cysylltwch â thîm Byw'n Iach Cyngor Gwynedd drwy e-bostio bywniach@gwynedd.gov.uk neu ffoniwch 01766 771000.

Lansio Lori Ni ar ei newydd wedd

Mae Gwasanaeth Llyfrgell Gwynedd wedi lansio gwasanaeth llyfrgell deithiol i blant - Lori Ni - ar ei newydd wedd yn ddiweddar.

Mae Lori Ni yn wasanaeth fan llyfrgell symudol sy'n ymweld â phob ysgol gynradd yng Ngwynedd ddwywaith y flwyddyn, ac yn gweithredu fel gwasanaeth gwybodaeth i blant, pobl ifanc a theuluoedd Gwynedd Ni yn ystod gwyliau'r ysgol. Mae tu mewn y lori wedi cael ei haddasu i edrych fel llyfrgell go iawn, ac mae modd gosod byrddau dros y silffoedd llyfrau a throï'r tu mewn yn bwynt gwybodaeth gyda chysylltiad i'r rhyngwrwyd.

Dyma'r gwasanaeth llyfrgell cyntaf o' i fath yng Nghymru i ddarparu gwasanaeth benthyc e-lyfrau i ysgolion, ac mae modd i'r plant allu dewis llyfrau i'w darllen ar eu dyfeisiau tabled yn y dosbarth.

I ddysgu mwy am Wasanaeth Llyfrgell Gwynedd, ewch i www.gwynedd.gov.uk/llyfrgell neu dilynwch @LlyfrGwyneddLib ar Twitter.

Am fwy o wybodaeth am deithiau Lori Ni, ewch i wefan Gwynedd Ni: www.Gwynedd-Ni.org.uk

Lansio Pasport Dwr Nofio Cymru yng Ngwynedd

Mae Cyngor Gwynedd wedi lansio rhaglen gwersi nofio newydd yn rhan o gynllun ehangach Pasport Dwr Nofio Cymru.

Mae'r cynllun wedi cael ei ddatblygu gan Nofio Cymru, a gefnogir gan Chwaraeon Cymru a Llywodraeth Cymru. Pasport Dwr yw'r unig gynllun dysgu nofio cydnabyddedig yng Nghymru ac mae'n cynnwys cynllun addysgu pwrpasol a chynllun gwobrau dwyieithog. Mae'n gynllun dysgu nofio chwyldroadol sy'n defnyddio'r dechnoleg ddigidol ddiweddaraf i wella profiad y plant, eu rhieni, athrawon ac ysgolion nofio.

Ar hyn o bryd mae Cyngor Gwynedd wedi cyflwyno'r cynllun Pasport Dwr yn saith pwl nofio'r sir a bydd yr elfen dechnolegol yn cael ei gyflwyno yn y dyfodol agos.

Dywedodd Rhys Mullan, Rheolwr Busnes Rhanbarthol Nofio Cymru:


'Mae Cyngor Gwynedd wedi bod yn bartner allweddol o'r cychwyn cyntaf wrth ddatblygu'r rhaglen Pasport Dwr, ac rydym yn ddiolchgar am eu cefnogaeth, yn enwedig ar rai o'r elfennau iaith Gymraeg. Roedd hi'n wych i mi a fy nghydweithwyr gyfarfod gymaint o athrawon yn ystod y sesiynau hyfforddi ac mae'r cynllun wedi bod yn llwyddiannus iawn hyd yma.'

Ychwanegodd y Cynghorydd Paul Thomas, Aelod Cabinet Cyngor Gwynedd ar gyfer Gwynedd Iach:

'Mae'n wych gweld Canolfannau Hamdden Cyngor Gwynedd yn cynnig y cynllun Pasport Dwr newydd hwn. Nod y Pasport Dwryw helpu plant i ddatblygu'n nofwyr cymwys a hyderus gyda dealltwriaeth o ddiogelwch dwr a sgiliau goroesi personol.

'Mae 3000 o blant a phobl yng Ngwynedd yn manteisio i'r eithaf ar y cynllun ar hyn o bryd, ac rwy'n annog unrhyw un sydd am wybod mwy i gysylltu â'u pwl nofio lleol.'

Am fwy o wybodaeth am byllau nofio yng Ngwynedd ac am eich canolfan hamdden leol, ewch i www.gwynedd.gov.uk/hamdden



**GWYNANT
PIERCE**

**CYNYRCHION COED
GATIAU • FFENSUS
AM BRISIAU
CYSTADLEUOL**

**— Uned 1 —
Fferm Bryn Afon
LLANRUG
(01286) 674183
07889899901**

SAMARIAID

Mae

Llinell Gymraeg

0300 123 3011

ar gael bob nos
rhwng
7.00pm ac 11.00pm



Priodas Dydd Sadwrn, 19 Gorffennaf, yng Nghapel Salem, Dolgellau priodwyd Iwan Rhys Williams, mab Brian ac Eirian, Glanffynnon a Mari Fflur Williams o Ddolgellau. Dymuna'r ddau ddiolch i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl gardiau a'r rhoddion a dderbyniwyd ganddynt ar yr achlysur. Byddant yn cartrefu yng Nghaerdydd.

Plaid Cymru - Enillwyr Clwb Cant Tachwedd: 1. John Roberts, Bedw Gwynion; 2. Goronwy Hughes, Eithinog.

Y Sefydliad Coffa - Enillwyr Clwb Cant Hydref: 1. M. Axon, 13 Hafan Elan; 2. M. Roberts, 7 Afon Rhos; 3. G. Kirkpatrick, 4 Hafan Elan.

Babis Newydd Croeso mawr i Bobi Llew, mab bach Laura ac Alwyn, Fron Oleu, Hermon, brawd i Lili, wyr i Gwawr a John a gor-wyr i Mrs Katie Davies, 5 Hafan Elan.

Hefyd i Catrin a Bryn, mab bach, Guto Siôn, brawd bach i Owain ac wyr i Hywyn a Mair Jones a gor-wyr i Mrs Megan Jones a Mrs Ceridwen Jones.

Llongyfarchiadau mawr i Ann

a Kelvin, Bryniau Fawnog, ar ddod yn daid a nain am y tro cyntaf i Gethin, mab bach Gareth a Rhian, Waunfawr. Hefydd Llongyfarchiadau i Bert a Megan Jones, Ffordd Glanffynnon ar ddod yn hen daid a nain.

Yn yr un modd llongyfarchwn Mathew a Sara, Lôn Groes ar enedigaeth merch fach, Daisy. Pob dymuniad da a llongyfarchion i Bryn a Iona ar ddod yn daid a nain am y tro cyntaf.

Mab bach ddaeth i Siôn ac Elin, Waunfawr, sef Osian Llywelyn. Llongyfarchiadau i chi fel teulu a taid a nain, sef Rolant a Carys Wynne.

Mae Elsie Owen o Hafod y

Merched y Wawr

Merched y Wawr Nos Fawrth, Tachwedd 11eg estynnwyd croeso cynnes i bawb gan Eryl Roberts, Is-lywydd y gangen. Cychwynnwyd yn ôl yr arfer gyda Chên y Mudiad. Anfonir cofion cynnes at Enid ac Eirian wedi eu triniaethau ynghyd â chofion annwyl at Meurig, gofawr y Sefydliad Coffa. Cafwyd gwasanaeth hyfryd ar Sul y Cofio a chyflwynwyd torch o babi coch gan y Gangen. Atgoffir pawb am y Ffair Aeaf ar 1af a'r 2il o Ragfyr yn Llanelwedd. Cofiwch hefyd am y gystadleuaeth Cynllunio Cerdyn Nadolig 2015 - rhaid i'r cynllunio fod yn wreiddiol ac yn addas ar gyfer ei atgynhyrchu. Cynigir ffotograffiaeth a barddoniaeth gwreiddiol oddi fewn. Rhaid i'r cardiau gyrraedd y Ganolfan Genedlaethol erbyn Rhagfyr Sed..

Llongyferchir Carys Wyn ar ddod yn nain eto, ganwyd mab bychan, Osian Llywelyn, i fab Cerys a Roland. Dymunir ymddeoliad hapus i Avril wedi gwasanaeth clodwiw fel nyrs yn Ysbyty Gwynedd. Braff oedd clywed fod Mrs Nansi Lovatt mewn hylliau da ac yn anfon ei chofion anwylaf

at aelodau'r gangen a phawb yn Llanrug. Nod Merched y Wawr yn genedlaethol eleni yw cefnogi Sefydliad y Galon - derbynir ategolion fel mwclis, sgarffiau, beltiau ayyb. 'Cliriwch ddroriau a rhowch yn rhadlon.'

Gwestwraig y noson oedd Elen Jones gyda 'Dwylo Difyr'. Wedi cyfnod yn athrawes yn Ysgol Brynrefail ac Ysgol Dyffryn Ogwen penderfynodd ddatblygu ei sgiliau a chychwyn busnes o gynllunio bagiau o bob math - bagiau dwrglos ar gyfer siopa neu eisteddfota, bagiau molchi, bagiau ar gyfer pob achlysur megis priodasau a nosweithiau allan. Roedd ganddi arddangosfa o fagiau yn wledd i'r llygaid.

Yn ogystal â chynllunio bagiau hyfryd dangosodd i ni sut i wneud 'ategolyn pren' i gyd fynd â'r bagiau. Enw cwmni Elen yw 'Nel'. Diolchwyd iddi am noson ddifyr dros ben a dymunir pob llwyddiant iddi gyda'i menter newydd.

Diolch i Mair, Jenny ac Iris am y baned. Enillydd y raffl oedd Helen Parry. Ar Ragfyr 9fed byddwn yn dathlu'r Nadolig yn 'Y Felin'. Pawb i fod yno'n brydlon erbyn 7.30.

Rhos, Ffordd Llanberis, wedi gwirioni ar ddod yn nain eto. Ganwyd plentyn cyntaf, sef mab o'r enw Lleu Deri i Ceridwen a'i mab Meilyr ar 18 Hydref.

Llongyfarchiadau oddi wrth y ddau deulu.

Diolchiadau Dymuna Mrs Jennie Owen, 7 Hafan Elan, ddiolch o galon am y caredigrwydd a ddangoswyd iddi pan gafodd lawdriniaeth yn

Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Diolch yn arbennig i Wardiau Ogwen a Tegid ac i'w teulu, cymdogion a ffrindiau. Mae yn falch o ddweud ei bod yn gwella bob dydd.

Cafodd Mrs Katie Davies, 5 Hafan Elan, gyfnod byr yn yr ysbyty hefyd ond mae gartref yn awr. Brysiwch wella, y ddwy ohonoch.

GAREJ

CERIS JONES

Trwsio ceir a faniau Gwaith MOT Mecanic profiadol iawn Prisiau cystadleuol

Llanrug 01286 677362 07979620996

J. M. JONES
a'i FEIBION
LLANRUG
Gwaith Coffaol

Ffôn Gwaith
01286 672898

Cartref
01248 679089

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Ysgol Gynradd Llanrug.



• Daeth y Brodyr Gregory i'r ysgol i berfformio sioe yn hybu ail-gylchu; sioe yn cael ei hyrwyddo gan Gyngor Gwynedd.

• Yn ystod y mis bu Cwmni Cyw yn ffilmio rhaglen newydd o'r enw 'Yr Ysgol'. Yn sicr, bydd sawl un o ser y dyfodol yn ymddangos ynddi!

• Braf yw cael croesawu Mrs Heulwen Evans yn ol yn dilyn ei damwain yn ystod yr haf.

• Bu'r ysgol yn llwyddiannus yn y Gala Nofio ddiweddar. Bydd Cameron Shaw yn cael taith i Gaerdydd i gynrychioli'r ysgol yn y dull nofio rhydd.

• Derbyniwyd adnoddau ar gyfer cynnal rhaglen radio, ac yn fuan caiff y plant y cyfle i ddysgu sut i greu rhaglen.

• Cafwyd ymweliad gan y Rheithor, Y Parch Carol Roberts, a fu'n trafod sumboliaeth Goleuni yn yr Eglwys.

• Dyma ddyddiadau cyngherddau'r ysgol am eleni:

Babanod: Pnawn Llun, 8fed Rhagfyr – yn yr ysgol.

Nos Fawrth, 9fed Rhagfyr – yn yr ysgol

Nos Fercher, 10fed Rhagfyr – yn yr ysgol

Bore Llun, 15fed Rhagfyr – yn yr ysgol – ar gyfer yr henoed.

Cynradd: Nos Lun, 15fed Rhagfyr – yn Neuadd Ysgol Brynrefail.

Eisteddfod Pentref



Dim ond ar lwyfan yr eisteddfod mae'r gynulleidfa'n eu gweld, ond mae'n golygu oriau o ymarfer i bawb, yn hyfforddwy'r chystadleuwyr. Dyma rai o'r bobl ifanc fu'n ymarfer yn rheolaidd yn Festri Capel y Rhos am rai wythnosau cyn yr eisteddfod.

Eich colled chi oedd hi

Annwyl Olygydd,

Eisteddfod Bentref Llanrug a Chwm y Glo: er fod neuadd Ysgol Brynrefail yn bur llawn i gystadleuthau'r babanod a'r plant iau, ac i seremoni anrhydeddu'r prif lenorion; llond dwrn o gynulleidfa arhosodd i gystadleuthau'r bobl ifanc oedran uwchradd. Ond cafodd y llond dwrn a arhosodd hyd y diwedd wledd amheuthun gan ieuencid dawnus a brwdfrydig yr ardal. Peth dieithr ar ddiwedd eisteddfod yw cael beirniaid yn annerch y gynulleidfa, ond dyna ddigwyddodd ar y noson, ac yr oedd y ddau feirniad (llefaru a cherdd), yn hael eu canmoliaeth am yr holl berfformiadau. Cafwyd noson i'w chofio, ond prin yw'r nifer fydd yn cofio. Ond dyna fo, eich colled chi oedd hi....

Yr eiddoch,

Un o'r llond dwrn.

(Derbyniwyd yr enw a'r cyfeiriad)

(Bydd cynnyrch y llenorion buddugol yn cael ei gyhoeddi yn rhifyn Nadolig yr 'Eco'. Golygydd).

Newid Busnes



Ymdeoliad Mae Siôn a Gwyn Antur Jones yn bwriadu 'ymddeol' o'u gwaith fel seiri meini ond yn gobeithio arallgyfeirio maes o law. Daethant i'r gweithdy ar Sgwâr Llanrug yn 1987 yn gweithio gyda'u hewythr, Mr Gwilym Jones, Gorwel, gynt. Wedi iddo ef ymddeol bu'r hogiau yn gweithio eu hunain. Yn ifanc iawn dechreuodd y ddau eu prentisiaeth gyda'u tad, Mr John Michael Jones, yn ei weithdy yn Neiniolen. Roedd ef wedi cychwyn y busnes teuluol yn 1957. Maent wedi bod yn uchel iawn eu parch gan bawb yn yr ardal ac wedi gweithio'n dawl a chydwybodol iawn a'u cynnyrch yn raenus bob amser.

Hoffai Gwyn, Siôn ac Elsbeth ddiolch yn ddiffuant iawn i bawb

yn y gymdogaeth, bro'r Eco a'r ardal ehangach am eu cefnogaeth ar hyd y blynyddoedd. Hoffwn ninnau yn y fro ddymuno'r gorau i'r tri ohonynt i'r dyfodol gan ddeisyfu iechyd da a phob lwc yn eu menter newydd.

Fe fydd enwau newydd uwchben y drws yn fuan iawn. Mae Dylan a Meinir Griffith, Tros y Waen, yn cymryd drosodd ganddynt. Rydym am ddymuno'r gorau iddynt hwythau wrth gario mlaen. Gobeithio y byddant hwythau yn cael yr un gefnogaeth yn eu gwaith. Croeso i Lanrug, Dylan a Meinir.

Gwyn a Siôn yn cyflwyno'r falat a'r cyn i Dylan a Meinir. Mae Rhys a Dewi yn mynd i gynorthwyo gyda'r gwaith.

Dymuna Dafydd Pritchard, Afon Rhos, ddiolch o galon ar ran elusen 'Morning Star' (er cof am Mair Morgan, Afon Rhos gynt) am ei noddi yn y Bangor 10K yn ddiweddar. Fe'i noddwyd am £200. Diolch i bawb.

Dymuna Bryn a Ruth a'r teulu ddiolch yn gynnes iawn i bawb a ddangosodd bob caredigrwydd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli eu mab bach, Elis, ac am yr arian a dderbyniwyd er cof, sef £3000 tuag at y Monkes Foundation. Diolch i chi i gyd.

Cyfarchion Nadolig Fe ddymuna Kathleen Jones, Kemand, Ffordd Glanffynnon, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb gan na fydd yn anfon cardiau eleni.

Pen-blwydd Arbennig Mae sawl person wedi cyrraedd carreg filltir arbennig yma yn y pentref.

Llongyfarchiadau mawr i Hywyn Jones, 60 oed; Gethin Parry, 40 oed; Carys Wynne, 60 oed ac Elwyn Roberts, Cefn Elan yn 70 mlwydd oed. Mae'n debyg fod sawl un wedi dathlu eu pen-blwyddi yn 40 yn ddiweddar, pob dymuniad da i chi i gyd.

Brysiwch Wella Cofion gorau at Mrs Megan Jones, Afon Rhos. Rydym yn deall eich bod wedi cael cyfnod yn

Ysbyty Gwynedd ac Ysbyty Eryri – brysiwch wella.

Hefyd, Mr Owen Jones, Wern, sydd wedi bod yn yr ysbyty a braf gweld Mrs Eileen Williams, Afon Rhos, a Mr Gwilym Williams, Bron Eifion, yn ôl yn y capel ar ôl bod yn sâl.

Profedigaethau Yn dawel yng nghwmni ei deulu yn Nhy Gobaith bu farw Elis Wynne, mab bach arbennig Bryn a Ruth, 7 Cefn Elan, yn 2 oed. Cydymdeimlwn yn ddiffuant iawn â chi a'r teulu i gyd yn eich colled enfawr.

Cofiw'n at Cyril Roberts, 1 Rhes Minffordd, yn ei brofedigaeth yntau yn colli ei chwaer, Mona, o Lanberis.

Cyfarchion Nadolig Dymuna Ellen a Gertie, 4 Hafan Elan, ddiolch i bawb sydd wedi ymweld â Gertie yng Nghartref Penisarwaun. Diolch hefyd i'r rhai sydd wedi gofalu am gludiant i mi i ymweld â'm chwaer.

Cymerwn y cyfle i ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am na fyddwn yn anfon cardiau eleni.

Croeso mawr i Cian, mab bach i Ffion a Kyle, Bro Rhythallt a brawd bach i Anest. Mae'n wyr i Janet ac Alun, a Tracy ac Adrian, Bethel ac yn or-wyr i Mildred Pritchard, Crawia. Llongyfarchiadau i bawb.

Cyngor Gwynedd yn penodi Pennaeth Addysg newydd

Mae Cyngor Gwynedd wedi penodi Arwyn Lloyd Thomas yn Bennaeth Addysg newydd, yn dilyn ymddeoliad diweddar y cyn bennaeth.

Bydd Arwyn Lloyd Thomas yn ymgymryd a'i swydd newydd yn y flwyddyn newydd.

Yn enedigol o ardal y Bala, mae Mr Thomas ar hyn o bryd yn Brif Swyddog Addysg Cyngor Dinas a Sir Abertawe. Mae'n gyn-Bennaeth Gwasanaeth Addysg Cyngor Sir Ceredigion ac yn gyn-Arolygwr Ysgolion gydag Estyn.

Dywedodd y Cyngorydd Dyfed Edwards, Arweinydd y Cyngor: "Llongyfarchiadau mawr i Arwyn. Addysg ein plant yw un o'n blaenoriaethau craidd ni fel Cyngor ac rydw i'n hynod falch ein bod wedi llwyddo i ddenu unigolyn disglair iawn i'r swydd bwysig yma.

Ychwanegodd y Cyngorydd Gareth Thomas, yr Aelod Cabinet dros Addysg: 'Rwyf yn croesawu'r penodiad ac yn edrych ymlaen i gydweithio hefo Arwyn a'r tîm er mwyn sicrhau yr addysg gorau posibl i blant a phobl ifanc Gwynedd.'

Dywedodd y Cyngorydd Peredur Jenkins, Cadeirydd y Pwyllgor Penodi ac Aelod Cabinet ar gyfer Adnoddau: "Mae Arwyn yn dod a chyfoeth o brofiad gydag o i'r swydd. Bydd y profiad hwnnw, law yn llaw â'i sgiliau arweinyddol cryf, yn gaffaeliad i ymdrechion y Cyngor i godi safonau ymhellach ac i ddarparu'r cyfle gorau posibl o lwyddiant i ddisgyblion y sir."

Capel y Rhos Oedfaon mis Rhagfyr

7: Y Gweinidog, Y Parch Marcus W. Robinson

14: Y Parch Gwynfor Williams

21: Oedfa Nadolig y Plant. Bydd paned a mins pei i bawb yn dilyn y gwasanaeth.

28: Y Parch W.R. Williams

Carwn atgoffa yr aelodau bod llyfrau'r casgliad yn cau ar Ragfyr 31. Gwerthfawrogwn yn fawr petai pawb yn dod â'u cyfraniadau cyn y dyddiad hwn.

Meithrin Menter Gymdeithasol Leol


Am gymorth:

i sefydlu menter
i gynnal gweithdai
i geisio am arian
i redeg mudiad
i wirfoddoli

**cysylltwch â
Mantell Gwynedd**



- yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
ymholiadau@mantellgwynedd.com
01286 672626 neu 01341 422575
Elusen Gofrestredig 1068851 Cofrestrwyd yng Nghymru
Cwmni Cyfyngedig drwy Warant 3420271



E. W. Pritchard

Trefnwyr Angladdau

**CENTRAL GARAGE
LLANBERIS**

FFON- (01286) 870202



RHEILFFORDD LLYN PADARN

Poblogaidd yn 2013

HELFA CALAN GAFAF

Hanner tymor yr Hydref



Mwynhewch daith ofnus drwy goednig y gwarchod a darganfuod gwahanol ysbrydion ar hyd y daith.

Trenau'n ddyddiol o 11⁰⁰ y bore tan 2.45 y prynhawn



**Prisiau arferol
Tocynnau teulu ar gael**

Caffi a Siop ar agor

Parc Gwledig Padarn, Llanberis, Gwynedd LL55 4TY
www.lake-railway.co.uk 01286 870549

PANED AM DDIM!

Hoffem gynnig paned o de neu goffi am ddim i ddau. Y cyfan sydd rhaid ei wneud yw dangos yr hysbyseb hwn yn y caffi. (yn ddilys tan 01.11.2014)

Mae Sion Corn yn ei ôl!!

Mwynhewch daith fer ar drên arbennig Sion Corn i lecyn hudolus ger y llyn. Anhregion i'r plant a mins pei a diod tymhorol i'r oedolion.

Rhagfyr 7fed, 13eg, 14eg, 20fed & 21ain.
Oedolion a phlant o £9.00
(plant o dan dair oed o £4.00)

Rhaid archebu o flaen llaw



Bws Ysgol Daeth newyddion da i ddisgyblion Ysgol Brynrefail wrth i Gyngor Gwynedd dderbyn bod angen rhoi gwasanaeth bws am ddim iddynt fynd a dod o'r ysgol. Mae'r disgyblion wedi bod yn talu 30c bob ffordd yn hanesyddol ond, ar ôl gwneud asesiad diogelwch mae'r awdurdod wedi ail-feddlu a phenderfynu gan nad ydyw'n ddiogel i gerdded arni y byddai rhaid cynnig cludiant am ddim.

Cyfarchion Nadolig Dymuna Nani Evans, 26 Bryntirion, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda a dedwydd i'w theulu, cymdogion a'i ffrindiau oll gan na fydd yn anfon cardiau eleni.

Nadolig Dymuna Betty Pritchard, 3 Llys y Gwynt, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb gan na fydd yn anfon cardiau eleni.

Diolch Dymunaf ddiolch yn gynnes iawn i'm cymdogion a ffrindiau pell ac agos am eich cydymdeimlad a'ch caredigrwydd pan ddaeth profedigaeth i'm rhan yn ddiweddar. Yr oedd y geiriau caredig ar bob cerdyn yn gysur mawr o wybod eich bod yn meddwl amdanom. Diolch hefyd am yr arian hael a ddaeth i'm llaw tuag at y Meakes Foundation. Llawer o ddiolch, Blodwen Mowll.

Pwyllgor Neuadd Gymuned Tynnwyd Clwb Cant Tachwedd a'r enillwyr yw: Delyth Williams, Pen Gaer; Caryl Griffiths, Ysgubor Cae Corniog.

Cynhelir Pnawn Wasail ddydd Iau, Rhagfyr 18 am 2.30 yn yr Ysgol Gymuned. Cymerir rhan gan blant yr Ysgol ac aelodau'r Pwyllgor. Bydd cyfle i gydganu'r hen garolau, mwynhau paned a mins pei a chymdeithasu. Croeso cynnes i rieni, teulu a ffrindiau ymuno yn y dathlu. Pris £2 tuag at y gost o reoli'r Neuadd Gymuned.

Dymunir diolch i'r gwirfoddolwyr fu'n helpu yn yr Orsaf Fwydo ym Mhen Pas ar gyfer Marathon Eryri fore Sadwrn, Hydref 25ain.

Anfonir ein cofion gorau am wellhad buan i Pat Larsen wedi triniaeth i'w chalon yn Ysbyty Gwynedd.

Cydymdeimlir yn ddwys iawn â Delyth Williams a'r teulu oll o golli chwaer annwyl,

Kate Prosser, 5 Llys y Gwynt, ac o 27 Bro Rhiwen. Rhiwlas gynt.

Anfonir ein cydymdeimlad llwyrat hefyd at deulu Llys, Brynrefail, yn eu profedigaeth o golli gwr, tad, tad yng nghyfraith, taid, hen daid, brawd a chyfaill triw i lawer, sef William Hugh Griffiths.

Cyfarchion Nadolig Gan na fyddwn yn anfon cardiau Nadolig eleni, dymuna Jean a'r teulu, Treflys, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Fendithiol i'r teulu, ffrindiau a chymdogion da.

Ysgol Gymuned

Diwrnod Plant mewn angen - Cafodd y plant gyfle i ddod i'r Ysgol mewn gwisg nos dydd Gwener, Tachwedd 14eg, gan dalu dirwy o £1. Roedd y staff wedi bod yn brysur yn gwneud cacennau a'i gwerthu yn ystod egwyl y bore. Trosglwyddwyd yr arian a gasglwyd sef £75 i gronfa Plant Mewn Angen. Diolch i bawb am eu cyfraniadau.

Diwrnod yn Ysgol Brynrefail - Cafodd plant Bl 6 gyfle i dreulio diwrnod yn Ysgol Brynrefail dydd Iau, Tachwedd 20fed. Roedd pawb wedi mwynhau'r profiad.

Ymweliad Cyfnod Sylfaen - Aeth dosbarthiadau derbyn 1 a 2 ar ymweliad ac Amgueddfa Lloyd George yn Llanystumdwy dydd Mercher, Rhagfyr 3ydd. Cawsant gyfle i wneud addurn a phwdin Nadolig. Roedd pawb wedi mwynhau'r profiad yn arw.

Sioe Nadolig - Cynhelir y Sioe eleni dydd Mercher, Rhagfyr 10fed. Bydd perfformiad am 1:30 y pnawn a 6 o'r gloch yr hwyr. Bydd yn bosib prynu tocynnau o'r Ysgol. Croeso cynnes i bawb.

Diwrnod Siwmpwr Nadolig - Bydd cyfle i'r plant (a'r oedolion!) wisgo siwmpwr Nadoligaidd dydd Gwener, Rhagfyr 12fed, a thalu dirwy o £1. Byddwn yn trosglwyddo'r arian i gronfa Achub y Plant.

Cinio Nadolig - Bydd Anti Carolyn yn paratoi cinio Nadolig dydd Gwener, Rhagfyr 12fed Mae cyfle i'r plant Meithrin ymuno â ni yn ogystal â'r plant sydd yn arfer cael pecyn bwyd. Y gost fyd £2.05c i blant a £2.75c i oedolion.

Pantomeim - Byddwn yn mynd a phlant BL 0 i 6 i "Venue

Ysgol Sul Bosra Fore Sul am 10.00 ar Dachwedd 9fed, sef Sul y Cofio, cafwyd gwasanaeth i gofio'r bechgyn o'r capel a syrthiodd yn yr Ail Ryfel Byd. Rhoddwyd tair croes fechan bren ar y Gofeb. Cafwyd hanes Heddwyn a dangoswyd lluniau ohono ef, Yr Ysgwrn a'r Gadair Ddu. Am 10.45 aeth y plant, yr athrawon a'r rhieni at lan y Gofeb i Eglwys Santes Helen a chafwyd dau funud o ddistawrwydd a chyflwynodd pob un o'r plant groes fechan bren wrth y gofeb. Cafwyd gwasanaeth teimladwy yng ngofal Esgob Bangor i gofio'r holl fechgyn a syrthiodd yn y Rhyfel Byd Cyntaf, gan mlynedd yn ôl, yn ogystal â'r rhyfeloedd a ddilynodd.



Rydym, fel aelodau'r Ysgol Sul, yn anfon ein cydymdeimlad llwyrat at Glenda, Aled ac Ethan, yn eu colled o golli tad a thad yng nghyfraith a thaid annwyl i Ethan, sy'n aelod ffyddlon o'r Ysgol Sul.

Rhagfyr 14 ni fydd Ysgol Sul yn y bore ond am 11.45 yn brydlon, byddwn yn mynd ar Drên Bach Llanbêr i gyfarfod Sant y Plant, Siôn Corn a'i helpwyr prysur.

Bydd yr Ysgol Sul yn ailgychwyn fore Sul, Ionawr 11, 2015.

Cymru" Llandudno pnawn dydd Mawrth, Rhagfyr 16, i weld y Pantomeim "Cinderela".

Ffair Nadolig - Cynhelir Ffair Nadolig yr Ysgol nos Fercher, Rhagfyr 17eg. Croeso cynnes i bawb.

Adloniant yn y Gymuned - Cynhelir Pnawn Wasael dydd Iau, Rhagfyr 18fed, am 2 o'r gloch. Bydd cyfle i ganu carolau a gwrando ar eitemau gan blant yr ysgol. Bydd Pwnsh a mins pei i'w gael ar y diwedd. Croeso cynnes i bawb.

Ail Gylchu - Cofiwch am bin ail gylchu Antur Waenfawr sydd wedi ei leoli yng nghyntedd yr Ysgol. Bydd yr ysgol yn derbyn arian am bob bin llawn, ac wrth gwrs mae'n gyfle gwych i gefnogi'r Antur.

Cronfa Pensiynwyr Penisarwaen

Pel Bonws Loteri - Enillydd Mis Hydref oedd Twm Elis Jones Llanfairpwll gyda rhif 3. Llongyfarchiadau.

Gwyliau Nadolig - Bydd yr Ysgol yn cau dydd Gwener, Rhagfyr 19, ac yn ail agor i'r

plant dydd Mawrth, Ionawr 7fed. Dymunwn Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

Cyfarchion Nadolig - Dymuna Arnold a Pat Jones, Tai Arthur, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w teulu, cymdogion a chyfeillion. Byddant yn cyfrannu arian at achos da yn hytrach nac anfon cardiau Nadolig.

Cydymdeimlo - Rydym yn cydymdeimlo'n ddwys iawn gyda Mrs Blodwen Mowll, 19 Bryn Tirion, a'r teulu yn eu profedigaeth ddiweddar. Collwyd trysor bach annwyl iawn iddynt, sef Elis bach, bydd yn gadael bwlch enfawr ar ei ôl. Gobeithio y cewch nerth i wynebu hyn.

Te Parti Plant - Cynhelir te parti i'r plant ac ymweliad gan Siôn Corn yn Neuadd yr Eglwys bnawn dydd Llun, Rhagfyr 22ain, o 4 tan 6 o'r gloch. Bydd unrhyw elw yn mynd tuag at Gronfa Pensiynwyr Penisarwaen.



Y Stephen Jones Newydd?

Rhun Meirion Williams, sy'n hano o Bontrug, yn dangos yr e-bost dderbyniodd gan Steve Cross, Undeb Rygbi Cymru, yn ei wahodd i hyfforddi gyda charfan tîm rygbi Cymru dan 18.

Mae Rhun ar ei ffordd i Ganolfan Rhagoriaeth Genedlaethol Undeb Rygbi Cymru ym Mro Morgannwg ac fe fydd yn ymuno gyda gweddill y garfan o hyd a lled Cymru. Mae pob un yn y garfan yn brwydro i gael ei le yn y tîm cenedlaethol dan 18 fydd yn chwarae mewn twrnamaint rhyngwladol ym mis Ebrill 2015.

Yn lleol mae Rhun yn gwisgo rhif deg ar grys tîm Rygbi Gogledd Cymru dan 18 sydd yn chwarae ym Mharc Eirias.

Ei arwr? Stephen Jones gynt o Gymru a Llanelli, un arall wisgodd grys a rhif 10 gydag anrhydedd.

Hogyn Brynrefs – da 'de

Dehreuad da yn wir i greu cronfa. Ac fel y gwelwch o'r llun cafodd Mrs Lowri Roberts waith caled yn dewis pa un i brynu!! (Yn y diwedd dewisodd ddau!!!)

Yr ydym yn ddiolchgar hefyd i William, Rhidian, Meleri, Elan, Emma a Wil am eu gwaith trylwyr hwythau yn coginio a threfnu'r danteithion gafodd eu werthu yn ystod egwyl dydd Iau yr 2il o Hydref. Ac fel y gwelwch o'r llun cafodd Mrs Dobbins hefyd waith caled yn dewis pa un i'w brynu – yn y diwedd dewisodd hithau ddau.



Mared Parry - Medal Aur

Mae teulu Ysgol Brynrefail yn dathlu llwyddiant aruthrol Mared Cadwaladr Parry (canol yn y llun), ac sydd ym mlwyddyn 13, ar ennill medal aur yn yr 'UK Open National Karate Championship' yn Warrington dydd Sul 2ail o Dachwedd 2014.

Mae Mared, sy'n hano o Lanberis ac yn aelod o Sekura Karate yng Nghaernarfon, wedi bod yn ymarfer Karate am chwe blynedd. Hyd yn hyn mae Mared wedi bod yn cystadlu mewn cystadlaethau yng Nghymru yn unig. Dyma'r drydedd tro yn unig iddi gystadlu yng nghystadleuaeth o fewn y Deyrnas Unedig ac wedi cyrraedd y brig!

Geneth Brynrefs – da 'de



Camp yn Wir

Gresyn bod y camera wedi dal Moli yn edrych yn drist oherwydd yr oedd hi ac Ella yn cyflawni gwyrrthiau. Yr oedd y ddwy, Ella Owen a Moli Pritchard o flwyddyn 8 wedi bod yn brysyr yn paratoi am wythnosau. Rhaid oedd cael caniatâd i osod yn y cyntedd a phrintio posteri i'w gosod ar hyd a lled yr ysgol. Ond rhaid hefyd oedd coginio cacennau a bu'r ddwy wrthi hyd 9.30 y noson cynt. Gwelwyd gwledd o gacennau gwahanol wedi eu haddurno gyda hufen ac eisin o bob lliw a llun. Blasus hefyd!

Ar ddiwedd y dydd roedd y ddwy wedi codi'r swm sylweddol o £50.65 tuag at achos da.

Blwyddyn 8 cofiwch, blwyddyn 8 ac yn dangos y fath fenter. Mae dyfodol Ysgol Brynrefail mewn dwylo da!

“Y byd i’n disgyblion a disgyblion i’n byd”

Hywel Williams Aelod Seneddol



Cafodd Blwyddyn 12 westai arbennig yn ystod mis Tachwedd. Cawsant gyfle i drafod agweddau ar wleidyddiaeth gyda'r Aelod Seneddol Hywel Williams fel rhan o'u gwaith tuag at Fagloriaeth Cymry.

SHEMLYN I PATAGONIA

Yn ddiweddar fe ddaeth newyddion gwych i Ysgol Brynrefail. Fe ddewiswyd, Siôn Emlyn Parry sy'n hanu o Llanddeiniolen, gan Urdd Gobaith Cymru yn rhan o griw fydd yn teithio i Batagonia ar ran yr Urdd i gyflawni gwaith gwirfoddol yno. Yr ydym yn sicr y bydd trigolion y pentref yn falch iawn ohono fel yr ydym yn Ysgol Brynrefail.

Bydd Siôn yn teithio ym mis Hydref 2015 i gyflawni pythefnos o waith gwirfoddol a gan ei fod yn gantor o fri, i gymryd rhan yn Eisteddfod y Wladfa. Fel Ysgol, yr ydym yn ymestyn ein llongyfarchiadau calonnog iddo.

OND!!! Mae Siôn yn gorfod codi £2900 tuag at y treuliau, sydd yn fenter anferthol. Fe fyddwn ni fel Ysgol yn gwneud ein gorau i'w helpu ond rydym yn gofyn hefyd, yn garedig, am eich cymorth chi ddarllenwyr yr Eco - yn unigolion, cymunedau, cymdeithasau a busnesau - fe allwch roi cymorth drwy yrru cyfraniadau i'r Ysgol. Fe ellir gyfrannu arian parod neu sieciau yn daladwy i Ysgol Brynrefail.



Brynrefail's Got Talent

A'r neuadd dan ei sang ac o flaen panel o feirniaid byd enwog lle yr oedd o leiaf dwy yn frwdfrydig bu gornest fawreddog i arddangos perfformwyr talentog Brynrefail.

Bu deuawdau, caneuon unigol gyda hunan gyfeiliant gitâr, aelodau o staff yn personadu Elvis a datganiad bythgofiadwy o 'Mi welais Jac y do'.



Ond Alan Williams, blwyddyn 7 a orfu gyda pherfformiad gwfreiddiol o 'Beatbocsio'.

Myfyrwyr blwyddyn 12 drefnodd yr ornest ac fe gasglwyd dros £600 fydd yn mynd tuag at Barti Nadolig Ysgol Pendalar. Hogyn Brynrefs – da de!

Gwranddo hyn Jôb:
“Saf ac ystyria ryfeddodau yr
Arglwydd

Gwelodd 'rhen Sgwlyn ar sgwâr llawn y dref
tra'n aros ei briod – wyrth natur – gref.

Daeth gwylan benwaig at ochor ei chyw
un brych, un 'leni, yn straffaglio byw.

Dynesodd yn hyf at ymyl y fam,
rhoes dâp bach i'w phîg – y brych-liw di-nam.

Heb hynny na mwy hi 'gorodd ei phîg
a chwydu o'i cheubal, seigiau o gig –

selsig a sglodion, sbâr biniau y cei,
(haws eu hysbeilio ar Seiont ar droi...?)

Bu'r Castell, Lloyd George, Hugh Owen – a'r Cwîn
hyd yn oed – y cyfan drwy oesau y drin

yn ffanffer tre'r cofi – rhyfeddod gwlad
am genedlaethau – a rhan o'n tref tad

a thestun balchder – yn denu'r holl bobl!
ond, o flaen 'sgwlyn' – roedd un hŷn na'r cwbl.

Norman Closs

Rhyfeddod

Bore Gwener oedd hi, ynghanol ysblander Medi. Y tywydd yn hynod garedig, a naws yr hydref yn awel dyner y bore. Wedi myned i Gaernarfon oedd Mattie a minnau gan fod gan y wraig apwyntiad pwysig i gael trin ei gwallt. Felly yr oedd gennyf dros ddwy awr i aros, a gwnes ddefnydd o'r amser gan fanteisio ar y llonyddwch a'r rhyddid i fyned o gwm-pas yr hen dref hynafol. Yn gyntaf oll euthum i lawr i'r cei ac Aber Seiont a sylwi ar brydferthwch Ynys Môn. Ynlaen wedyn oddi amgylch y siopau. Yna euthum i'r Maes, canolfan y dref, ac eistedd ar fainc esmwyth ger y Gofeb. Yr oedd llawer o bobl o gwmpas; rhai ieuainc yn myned a dyfod fel morgrug, ond y rhai hŷn fel mi yn llusgo'n araf gan ddibynnu ar ffon neu beiriant bychan hwylus i'w cario. Bûm yn eistedd ar y fainc am beth amser yn rhyfeddu at y castell cadarn ac hefyd dychmygwn ei weled yn ei waith o amddiffyn y dref yn y dyddiau a fu. Yna daeth dau ymwelydd i dorri ar fy myfyrdod, sef dwy wylan hardd. Mae'n rhaid cydnabod fod yr wylan yn aderyn urddasol er bod ganddi hen arferiad cas o fomio. Yr oedd y gwylanod wedi dod at y fainc i gardota. Ond nid oedd gennyf friwsionyn i'w roddi iddynt. Yna yn hollol ddisymwth ce-fais ymwelydd annisgwyl arall. Aderyn llai ei faint oedd â'i wisg yn frych a digon blêr. Daeth yntau i'm cyfarch gan feddwl y cai friwsionyn ond ofer fu ei ymbil yntau. Sylwais ar y sŵn a wnai. Nid oedd yn clebran fel gwylanod ond gwnai rhyw wich fel drws eisiau olew, gan aflonyddu ar un o'r gwylanod. Ni wylltia'r wylan wrtho. Ond yn hytrach cerddai i ffwrdd. Er mawr syndod i mi, aeth brychan at y wylan gan gnocio ar ei chylfin hirgoch. Yna, chwydodd y wylan gymysgedd o fwyd a neidiodd y brychan amdano gan lyncu pryd saith cwrs yn farus. Gan fod fy ngwybodaeth o fyd natur braidd yn dlawd ni allwn ddirnad yr hyn a welais. Ond bu'n rhaid gadael y fainc a chyfrinach yr adar, gan fod Mat-tie wedi dod i'r Maes. Rhaid felly oedd mynd i siop Morrison, i ganol dwndwr a dadwrdd yr unfed ganrif ar hugain. Bu'r digwyddiad ar y Maes ar fy meddwl hyd trannoeth, hyd yr ymwelodd Norman Closs Parry â mi. Mae Closs yn arbenigwr ym maes natur a gwyddoniaeh a dywedais wrtho am fy mhro-fiad. Cefais esboniad yn syth bin ganddo ef. Cyw gwylan oedd brychan, heb ddatblygu ei gri eto, a dyma'r modd y mae'r fam yn ei fwydo. Ydwyf, yr wyf yn y coleg bob dydd, yn dysgu am ryfeddodau y byd o'm cwm-pas gan synnu at rym greddf.

J.H. Hughes

ARVONIA



- Gwyliau cerbyd moethus Prydeinig a Chyfandirol.
- Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- Adran teithiau grwp.
- Tocynnau rhodd.
- Llyfryn Gwyliau 2014 ar gael nawr.

01286-675175 | www.arvonias.co.uk





Nadolig Llawn
A Blwyddyn Newydd Dda
i holl ddarllenwyr yr Eco

Hoffwn ddiolch i'n
cwsmeriaid lleol am eu
cefnogaeth trwy gydol y
flwyddyn!



Caffi Caban, Yr Hen Ysgol, Brynrefail
www.caban-cyf.org caban@caban-cyf.org
01286 685 500 (caffi) 01286 685 462 (swyddfa)

Caban cyf

Diwrnod Siwmperi Nadolig Achub y Plant
Mae Achub y Plant eisoes yn llawn ysbryd yr Wyl ac wedi lansio ein prif ymgyrch codi arian eleni o'r enw Diwrnod Siwmperi Nadolig.

Bydd y digwyddiad eleni yn cael ei gynnal ar Ddydd Gwener 12 Rhagfyr ac rydym yn gweithio'n galed i sicrhau y bydd yn ddiwrnod i'w gofio. Mae'n gyfle gwych i chi gael mymryn o sbort a sbri Nadoligaidd a chodi arian i helpu plant o bob cwr o'r byd ar yr un pryd.

Mae'r syniad yn syml: i gael pawb at ei gilydd ar 12 Rhagfyr i wisgo siwmpwr wllan, glyd ac i gyfrannu £2 yr un i Achub y Plant.

Eleni bydd miliynau o bobl ar hyd a lled y DU yn ymuno gyda'u siwmperi gwlanog a byddem wrth ein bodd petai eich darllenwyr chi yn ymuno â ni.

Gallwch gofrestru nawr ar www.christmasjumperday.org ac

ACHUB Y PLANT



*Mae nifer o sêr yn cefnogi Diwrnod Siwmpwr Nadolig Achub y Plant eleni,
gan gynnwys y gyflwynwraig Alex Jones*

fe wnawn anfon pecyn codi arian atoch yn llawn o syniadau ar gyfer gweithgareddau creadigol a ryseitiau i sicrhau y bydd eich Diwrnod Siwmperi Nadolig chi yn llwyddiant.

Os hoffech becyn gwybodaeth codi arian yn y Gymraeg cysylltwch gydag Eurgain Haf neu Lois Eckley ar 02920 803 260 neu e.haf@savethechildren.org.uk neu leckley@savethechildren.org.uk.

Bydd yr holl arian a gesglir yn mynd tuag at ein gwaith yn helpu plant mwyaf bregus y byd, felly byddem yn ddiolchgar iawn o dderbyn eich cefnogaeth. Os hoffech fwy o wybodaeth, croeso i chi gysylltu a byddem yn hapus iawn i fod o gymorth.

Yn gywir

Eurgain Haf a Lois Eckley

Rheolwyr y Cyfryngau a Chyfathrebu Achub y Plant-Cymru

Pencampwr newydd i fusnesau bach Gwynedd

Mae'r Cynghorydd Siân Gwenllian wedi cael ei phenodi yn Bencampwr Busnesau Bach cyntaf Cyngor Gwynedd. Yn ei rôl newydd, bydd y Cynghorydd Gwenllian yn gweithredu fel cyswllt rhwng 12,000 o fentrau bach y sir gyda phroses wneud penderfyniadau'r Cyngor.

Wrth groesawu'r penodiad, dywedodd Aelod Cabinet Economi Cyngor Gwynedd, y Cynghorydd John Wynn Jones:

'Gyda dros 12,000 o fentrau yn cyflogi deg person neu lai, mae busnesau bach yn sicr yn galon ein heconomi lleol - pan mae'r busnesau yma'n llwyddo, mae Gwynedd yn llwyddo.

'Mae creu'r amodau cywir i sector busnesau bach y sir dyfu a llwyddo yn ganolog i'r gwaith o ddatblygu economi lleol llewyrchus a chynhyrchu cyflogaeth o ansawdd uchel i bobl leol.

'Bydd y Pencampwr Busnesau Bach newydd yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith hwn, gan ychwanegu at yr hyn sydd wedi ei gyflawni eisoes.

Ychwanegodd y Cynghorydd Siân Gwenllian:

'Mae gan Wunedd amrywiaeth eang o fusnesau bach, sydd i gyd yn cyfrannu'n aruthrol at ffyniant economaidd ein sir.

'Mae gan Gyngor Gwynedd enw da yn cefnogi'r sector allweddol bwysig hwn. Er enghraifft, drwy'r Gronfa Datblygu Lleol, mae'r Cyngor wedi darparu bron i £1 miliwn i 150 o fusnesau cyfredol Gwynedd a 41 o fusnesau newydd yng Ngwynedd ers 2009. Hyd yma, mae'r buddsoddiad hwn wedi creu 184 o swyddi newydd a diogelu 392 swydd bresennol yn y sir.

'Yn ystod y misoedd nesaf, rwy'n awyddus i fynd o gwmpas a chyfarfod cymaint o bobl busnesau bach ac arweinwyr busnes ac sy'n bosib i wrando ar beth sydd ganddyn nhw i'w ddweud a beth yw'r brif flaenoriaeth a rhwystrau iddynt.'

Llyfrau Cymraeg yn ffefrynnau gan blant Gwynedd

Gyda blwyddyn ysgol newydd wedi hen ddechrau, mae Gwasanaeth Llyfrgell Gwynedd yn hynod falch o gyhoeddi fod llyfrau Cymraeg yn parhau yn ffefrynnau gan blant ysgolion y sir.

Nid yn unig cafodd mwy o lyfrau ffuglen Cymraeg eu benthgylgu a'u darllen gan blant ysgolion cynradd Gwynedd trwy ymweliadau Lori Ni a'u hysgol llynedd, ond cynyddodd y nifer llyfrau ffuglen Cymraeg a fenthgywyd i blant i 12,626.

Mae Lori Ni yn ymweld â phob ysgol gynradd yng Ngwynedd ddwywaith y flwyddyn gyda chyfle i blant ddewis a dethol llyfrau darllen i'w hunain ac i'r dosbarth. Mae ystod amrywiol iawn o ddeunyddiau darllen cyfoes ac atyniadol ar gael, gyda digon i gadw'r darllenwyr mwyaf brwd yn brysur am y tymor.

Daw'r cyhoeddiad hwn yn dilyn gwaith helaeth gan y Siarter Iaith Gymraeg - cynllun arloesol Cyngor Gwynedd i hyrwyddo ac annog defnydd plant ysgolion cynradd y sir o'r iaith Gymraeg yn eu bywyd bob dydd - dros y blynnyddoedd diwethaf.

Dywedodd y Cynghorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet Cyngor Gwynedd a chyfrifoldeb am lyfrigelloedd a'i iaith Gymraeg:

'Mae'n hynod bwysig bod plant yn cael mynediad rheolaidd at lyfrau Cymraeg a Saesneg newydd er mwyn datblygu eu sgiliau darllen, llythrennedd a dwyieithrwydd. Rydym yn gwybod fod athrawon, a disgyblion ysgolion Gwynedd yn gweld ymweliadau Lori Ni yn wasanaeth hanfodol a wir yn ei werthfawrogi.

'Mae'n galonogol iawn fod plant Gwynedd yn dewis darllen llyfrau Cymraeg fwyfwy na llyfrau eraill. Gyda chronfa enfawr o lyfrau Cymraeg i'w dewis ohonynt gan wasanaeth lyfrigelloedd Gwynedd, nid yw'n syndod fod llyfrau Cymraeg mor boblogaidd ymysg plant a phobl ifanc y sir.

'Mae'r cyhoeddiad hwn hefyd yn newyddion gwych i'r Siarter Iaith Gymraeg, gan ddangos fod y gwaith gwych maent yn ei wneud yn ysgolion cynradd y sir yn annog yr iaith Gymraeg yn talu ar ei ganfed.' Am fwy o wybodaeth am lyfrigelloedd Gwynedd, ewch draw i'r wefan: www.gwynedd.gov.uk/llyfrgell

I ddysgu mwy am y Siarter Iaith Gymraeg dilynwch nhw ar Twitter - @SiarterIaith

Y Sw Tudur Owen




Ei sioe lwyfan, The Worst Zoo in Britain (Mwnici, Fi a Chwaer y Cwîn yn Gymraeg) oedd y sbardun ar gyfer hon, sef nofel gyntaf Tudur. Mae'n egluro:

Mae stori'r Sw wedi cymryd dros chwarter canrif i'w hysgrifennu mewn gwirionedd gan ei bod wedi ei hysbrydoli gan ddigwyddiadau a chymeriadau o 'mhlentyndod yn sir Fôn. Adroddais yr hanes gynta mewn noson hwyliog yn nhafarn y Blac Boi, Caernarfon. Mi ges i fy mhlesio gan yr ymateb, a phenderfynu ei chyfieithu i'r Saesneg a'i pherfformio yng Ngwyl Ffrinj Caeredin. Wahoddiad gan Wasg Carreg Gwalch i addasu stori'r Sw yn nofel, ac er bod y dasg wedi bod yn her anferthol, rydw i wedi mwynhau yn fawr iawn. Bu'r broses o sgwennu yn un blesurus, ond mae cyhoeddi fy nofel gyntaf yn brofiad brawychus a deud y lleia! Fel comediwr sydd wedi arfer sefyll ar lwyfan o flaen cynulleidfya fyw, mae'r syniad o bobol yn darllen fy ngeiriau yn hytrach na'u clywed yn brofiad gwahanol iawn, a dwi ond yn gobeithio y caiff y darllenwyr yr un pleser o ddarllen stori'r Sw ag y cefais i yn ei hadrodd. Wrth gwrs, mae rhai enwau wedi eu newid, a thipyn bach o leisans creadigol wedi ei ychwanegu i'r hanes ar hyd y daith, a'r canlyniad ydi chwip o stori ddifyr, ddoniol fydd yn siwr o blesio yn unrhyw hosan Dolig!

- Mae'r artist Osian Efnisien wedi creu delwedd y clawr a lluniau o anifeiliaid y sw yn arbennig ar gyfer y nofel hon.
- Mae Tudur ar hyn o bryd yn teitio Cymru hefo'i sioe gomedi newydd, Pechu.

Gwasg Carreg Gwalch; Pris £8.50

Holl Anifeiliaid y Goedwig



Holl Anifeiliaid y Goedwig yw teitl CD newydd o ganeuon i blant gan Plu, triawd gwerin teuluol o fro'r Eco'r Wyddfa. Mae Plu, sef Gwilym Bowen Rhys a'i ddwy chwaer Elan a Marged, yn dod o Fethel. Maen nhw eisoes wedi gwneud enw iddynt eu hunain am eu harmonïau lleisiol hyfryd a'u cyfeiliant gafaelgar ar y gitâr a nifer o offerynnau eraill.


Byddai'r CD hwn yn anrheg Nadolig hyfryd i blant bach. Ar yr albwm ceir casgliad o 15 o ganeuon, rhai yn hen ffefrynnau ac eraill yn rhai newydd. Yn gynwysedig gyda'r CD mae llyfryn bychan sy'n rhoi geiriau bob cân a darluniau deniadol gan Yvonne Amor o'r gwahanol anifeiliaid y sonnir amdanynt.

Bydd y CD yn cael ei lansio'n swyddogol ar ddydd Sadwrn 6ed o Ragfyr yn y siop Palas Print yng Nghaernarfon, a cheir cyfle yno i glywed Plu yn perfformio rhai o'u caneuon yn fyw. Croeso cynnes i bawb.

Clawr y CD 'Holl Anifeiliaid y Goedwig' - darluniwyd gan Yvonne Amor



Gwn Glân a Beibl Budur. John Williams, Brynsiencyn a'r Rhyfel Mawr.



Mae unrhyw un sy'n darllen neu'n prynu cyfrol o law'r Parch Harri Parri yn gwybod fod gwledd yn eu haros, ac nid yw'r gyfrol ddiweddaraf hon yn ddim gwahanol. Mae enw'r Parch John Williams, Brynsiencyn yn dal i godi gwrychyn neu ennyn edmygedd yn hanes Cymru yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, ac yn y gyfrol hon, sy'n llawn lluniau, mae'r awdur yn bwrw golwg dros ran y gweinidog yn yr ymgyrch i 'listio' hogiau ifanc gogledd-orllewin Cymru.

Nid cofiant mohono, ac nid dyna fwriad yr awdur, ond mae elfennau cofiannol ynddo o reidrwydd. Yn hytrach ceir hanes yr ymgyrch recriwtio a'r gwrthdaro amlwg, yn enwedig ymhlith aelodau eglwysig y cyfnod.

O ddiddordeb i drigolion bro'r 'Eco' ceir hanes ymweliad John Williams â'r Concert Hall yn Llanberis ym mis Medi 1914, a'r Cadfridog Owen Thomas ('Rhyfelwr Mon') yno'n annerch hefyd, cyn i bethau fynd "yn bur anhrefnus" yno! Fel y dywed y broliant ar gefn y llyfr, nid y bwriad yw aildafoli cymeriad John Williams, ond nodi "ffeithiau amdano gan adael i luniau a llythyrau, cofnodion neu atgofion, canmoliaeth a beirniadaeth... i adrodd y stori."

A theitl y gyfrol? Bydd yn rhaid i chwi ei phrynu i ddeall yr arwyddocad!

Caru ein Llyn yn ystod y flwyddyn i ddod.

Y neges gan dim Caru ein Llyn, sydd â'u pencadlys yn Y Caban, Brynrefail, yw galw ar drigolion lleol a busnesau i wneud newidiadau syml i rai agweddau o'u bywyd bob dydd er mwyn gostwng mewnbwn halwynau niweidiol i'r llyn er mwyn iddo gadw safon y dwr.

Yn ystod eleni cafodd Llyn Padarn ei ddynodi fel y llyn dwr croyw cyntaf yng Nghymru oedd yn addas i ymdrochi ynddo. Roedd pob sampl a gymerwyd yn wythnosol drwy'r tymor nofio gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn dangos fod y dwr yn cyrraedd y safon uchaf yn ôl gofynion Ewrop.

Dywedodd Emma Edwards-Jones ar ran Caru ein llyn, "Mae derbyn y safon ymdrochi hwn yn dangos gwerth Llyn Padarn, a dangoswyd hynny gan y torfeydd o blant a phobl ifanc lleol a dreuliodd oriau lawer yn neidio i'r dwr o'r pontŵn yn y lagŵns. Ond, rhaid cofio mai sustem gymhleth sydd i'r llyn, a rhai i ni oll wneud ein rhan i sicrhau fod ein gweithgaredd yn effeithio cyn lleied a phosib ar y llyn."

Er mwyn cadw dwr y llyn i'r safon disgwyledig mae Caru ein Llyn yn annog pawb i:

- Newid i bowdrau golchi amgylcheddol-gyfeillgar, rhydd o ffosffad.
 - Defnyddio'r peiriant golchi llestri dim ond pan fo'n llawn. Mae hyn yn lleihau'r defnydd o ddwr sy'n cynnwys powdr golchi.
 - Bod yn ymwybodol o'ch carthffosiaeth, a pheidio ac arllwys olew, saim a deunyddiau glanhau i lawr eich toiled.
 - Os ydych yn berchennog tanc septig, gofalwch ei wagio bob un i ddwy flynedd. Mae mwy o wybodaeth am hyn i'w gael ar safle www.loving-our-lake.org
- Lansiwyd cynllun Caru ein Llyn ddwy flynedd yn ôl, ac mae'n



Plant ysgol lleol yn dysgu am fywyd y llyn yn y Diwrnod Bio-amrywiaeth fis Mehefin.

cael ei gynnal yn rhannol gan Cyfoeth Naturiol Cymru a Dwr Cymru. Mae'n ceisio lledaenu ei neges amgylcheddol drwy gynnal gwahanol weithgareddau megis y diwrnod gwyddonol a gynhaliwyd ym Mehefin eleni. Daeth bron i 200 o blant o ysgolion lleol i gymryd rhan yn y gwahanol weithgareddau.

Mae trigolion lleol eisoes wedi ymateb i'r galw am newidiadau, ond mae angen i lawer mwy fod yn barod i ddilyn eu hesiampl. Mae croeso i chwi gysylltu efo'r tim yn Y Caban am fwy o wybodaeth.

DIOLCH AM WASANAETH

Wedi cryn gyfnod mae Siencyn a Glenys Griffith, Llwyn Eithin, Bethel wedi 'ymddeol' o'r gwaith gwerthfawr o hel carfan o ddarllenwyr a threfnu recordio tapiau o gynnwys Eco'r Wyddfa i'r deillion. Mae hwn yn wasanaeth gwerthfawr a diolchwn i'r ddau am yr hyn gyflawnwyd. O'r rhifyn hwn ymlaen bydd Richard a Mary Jones, 5 Y Ddol, Bethel (01248 670115) yn gyfrifol am drefnu. Bydd y tapiau yn cael eu recordio yng nghanolfan y Deillion ym Mangor. Os oes gennych ddiddordeb i gynorthwyo - rhyw 2 awr unwaith y mis - yna cysylltwch.

Parcio am ddim dros y Nadolig.

Wrth i gyfnod y Nadolig nesáu, mae Cyngor Gwynedd yn falch o gyhoeddi y bydd parcio am ddim yn holl feysydd parcio'r Cyngor yn ystod cyfnod y Nadolig.

Fel rhan o ymgyrch flynyddol y Cyngor i ddenu trigolion i bob stryd fawr yng Ngwynedd a chefnogi'r economi leol, bydd siopwyr yn gallu parcio am ddim yn holl feysydd parcio'r Cyngor o 13 hyd 27 Rhagfyr 2014.

Nadolig Llawn
a diolch am eich
cefnogaeth

oddi wrth

Alwyn a Sarah

Rithoedd Celyn,
Coed Nadolig, 'Crem Pots' a
Rithoedd Drws.

Basgedi Planhigion,
Trefniadau blodau Silc.

RHODD O'R GALON YW BLODAU

**Blodau
Racca**

Penisarwaun Ffôn: 870605



Dylan Griffith
Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol

TROS-Y-WAEN PENISARWAUN

Gwaith Cerrig Beddi
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethu Yr Holl Ardal

Ffoniwch DYLAN ar 01286 871833 (SYMUDOL- 07778127394)

Hefyd



CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA
Cyrhaethwch Mewn Steil Mewn Cerbyd *Rolls Royce*
AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYD ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL

Anrheg Nadolig o'r ardd

- Mae llawer o bobol yn gwneud addunedau blwyddyn newydd i gadw'n ffit, colli pwysau a bwyta'n iach, ond faint sy'n cadw atyn nhw tybed? Bydd cyfrol newydd gan Wasg Carreg Gwalch, sy'n cael ei chyhoeddi mewn pryd i'w rhoi yn yr hosan Nadolig, yn datrys y problemau hyn i gyd!
- Mae pwyslais y gyfrol ar fyw yn fwy gwyrdd. Er enghraifft, ceir cyngor ar sut i drin pla yn yr ardd heb gemegion a sut i arbed arian yn y ty.
- Mae yma gynghorion hefyd ar sut y gall y plant helpu o gwmpas y ty ac yn yr ardd.

O Egin i'r Gegin

Russell Jones (Byw yn yr Ardd, Tyfu Pobol) a'i wraig, Jen, yw awduron O Egin i'r Gegin, ac yn y gyfrol liw llawn hon maent yn ein tywys o fis i fis gan egluro beth i'w wneud yn yr ardd, sut i fynd ati i ddechrau tyfu llysiau a ffrwythau yn llwyddiannus, a beth i'w wneud efo'r cynnyrch tymhorol yn y gegin. Yn ôl Russell:

Mae pobol wastad yn gofyn i mi, lle bynnag fydda i'n mynd, sut dwi'n gwneud hyn-a-hyn yn yr ardd a phryd i blannu'r peth-a'r-peth. Aeth ambell un mor bell â deud y dylwn i sgwennu llyfr garddio a dyma fo! Fy mwriad i yn y llyfr yma ydi annog pawb i roi tro ar dyfu rwbath, boed yn dyfu perllysiau ar silff ffenest y gegin neu dyfu pwysi o datws! Does dim rhaid i rywun gael patsh mawr 'run fath â fi. Mi synnech faint fedwrch chi i dyfu mewn potyn neu ddau wrth ymyl y drws cefn!

Maen nhw'n deud bod dynes y tu ôl i bob dyn llwyddiannus, a Jen, gwraig Russell, yw meistres y gegin. Mae hi'n frwd iawn ynglyn â choginio popeth yn ei dymor ac wrth ei bodd yn casglu cynnyrch gwyllt, fel mwyar duon, i greu bwyd blasus. Rysetiau cartrefol, hawdd i'w paratoi mae hi'n eu ffafrio. Meddai Jen:

Mae pobol yn gofyn i mi'n aml ydw i wastad wedi mwynhau coginio. Yr ateb syml ydi 'Na!' Wnes i ddim coginio o ddifri tan oeddw i yn fy ugeiniau cynnar. Rwan, o'r diwedd, dwi wedi cael y cyfle i dalu teyrnged i'r ddynes orau i mi erioed ei hadnabod, sef Nain (Enid Hughes, Tal Bont). Mae fy nghyfraniad i i'r llyfr yma'n deyrnged i'w doniau, ei dysgeidiaeth a'i hamynedd, ac yn rhywbeth yr hoffwn ei basio i lawr i'm merch fy hun. Gobeithio y byddwch yn mwynhau rhoi cynnig ar y rysetiau gymaint ag y bu i'r ffotograffydd fwynhau bwyta'r bwyd!

Gwasg Carreg Gwalch; Pris: £12

Ffeithiau Rhagfyr.

Cychwyn tymor yr adfent sy'n golygu 'dyfodiad'. Mae'n cychwyn ar y pedwerydd Sul cyn y Nadolig.

1955 Rhagfyr 5ed. Undeb Amaethwyr Cymru yn cael ei ffurfio.

1916 Rhagfyr 7fed. Daeth David Lloyd George yn Brif Weinidog Gwledydd Prydain.

1282 Rhagfyr 11eg. Lladd Llywelyn ap Gruffudd (Ein Llyw Olaf) ar lan afon Irfon yng Nghilmeri.



**BORE COFFI NADOLIGAIDD
EGLWYS SANT PADARN,
LLANBERIS.
BORE SADWRN 5ED RHAGFYR AM 10YB**

**STONDINAU AMRYWIOL YN CYNNWYS STONDIN NWYDDAU
MASNACH DEG, STONDIN FLODAU, STONDIN GACENNAU A LLAWER
MWY!**

**MYNEDIAD (YN CYNNWYS PANED A MINS PEI)
23, PLANT AM DDIM**

DEWCH YN LLU

COFIO CADOEDIAD NADOLIG 1914


gyda nofel wreiddiol arbennig

- Enillodd Gareth F. Williams wobwr Tir na nOg am ei nofel oedd yn ymdrin â thrychineb tanchwa Senghennydd 1913. Eleni mae'n cyhoeddi nofel am yr heddwch dewr a welwyd rhwng milwyr yn y ffosydd ar Ddydd Nadolig 1914
- Roedd milwyr y ddwy ochr dan orchymyn i 'Danio ar y Gelyn'. Mewn gwirionedd, miwtini oedd y cadoediad - penderfynodd y milwyr wrthod ufuddhau i'w uwch swyddogion a wynebu'r 'gelyn' ar Dir Neb, ysgwyd dwylo, canu carolau a hyd yn oed chwarae ambell gêm o bêl-droed.

Hanes yn dod yn fyw drwy gymeriadau'r nofel
Y Gêm gan Gareth F. Williams

Mae'r stori yn dechrau yng nghefn gwlad Cymru gyda'r prif gymeriadau yn 11 oed. Roedd Alun a Tecwyn yn ffrindiau gorau pan oedden nhw'n blant. Ond, yn dilyn ymweliad â'r Hen D? un prynhawn poeth, trodd y ddau ffrind yn ddau elyn.

Yna yn 1914, mae Alun a Tecwyn yn gadael eu cartrefi yn Eryri a mynd i ymladd yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Nôl adref, roedd y ddau'n hen gyfarwydd â chwarae gêm fudur o bêl-droed yn erbyn ei gilydd. Ond, ar ddiwrnod Nadolig yn ffosydd Ffrainc, mae heddwch undydd rhwng milwyr dwy fyddin yn gorfodi Alun a Tecwyn i chwarae gêm o bêl-droed i'r un tîm. Tra bo carolau'n clecian yn lle gynnu, a fydd y ddau'n dychwelyd adref i chwarae gêm gyfeillgar arall o bêl-droed?



BARRY'S GLASS

**FFENESTRI • DRYSAU
Conservatori UPVC**

**Trwsio Unedau
DOUBLE GLAZING**

Trwsio a Gosod Gwydr

(01286) 872772
Symudol- 07840 794269

MODURDY'R WYDDFA

Snowdon Garage LLANBERIS

MOT • GWASANAETH CYNNAL A CHADW

NADOLIG LLAWEN
A Blwyddyn Newydd Dda

(01286) 870225



BYSUS RHIWLAS

BYSUS BACH A MAWR
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
Nosweithiau allan, Partion, Triplau ac ati.
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol-
Ffoniwch (01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS



Profedigaethau Yn ei gartref yn Llys, Brynrefail, ar Dachwedd 10fed bu farw William Hugh Griffith wedi cystudd byr, yn 87 mlwydd oed. Mae ein cydymdeimlad yn ddwys â'r teulu oll yn eu profedigaeth. Estynnwn gydymdeimlad hefyd â Rhian Jones 3 Trem Eilian yn ei phrofedigaeth o golli ei brawd, Llywelyn Lloyd Roberts o Lanberis yn frawychus o sydyn ar Dachwedd y 7fed.

Sefydliad y Merched Nos Lun, Tachwedd 3ydd, daeth nifer dda o'r aelodau ynghyd i Westy Fictoria, Llanberis i gymryd rhan yn Noson Cwis y Ffederasiwn ac ar Dachwedd y 10fed bu'r noson Bingo yng Nghlwb Cymdeithasol Llanberis yn un llwyddiannus. Dydd Sadwrn, Tachwedd 8fed, cyfrannodd yr aelodau nifer o eitemau i Sioe Grefft a Chynnyrch ym Mhorthmadog gan dderbyn llwyddiant yn y gwahanol gystadlaethau. Enillodd Pat Jones y Gwpan am y marciau uchaf yn y Sioe. Cynhelir Gwasanaeth Carolau y Ffederasiwn eleni yn y Waunfawr nos Wener, Rhagfyr Sed, am 7 yr hwyr.

Yr Eglwys Bresbyteriaidd Blychau Nadolig Paratowyd nifer teilwng o Flychau Nadolig y Plant unwaith eto eleni gan yr aelodau a charedigion. Mae ein diolch yn fawr i bawb am eu haelioni.

Oedfa Arbennig Nos Sul, Tachwedd 2il, cynhaliwyd oedfa o dan ofal yr aelodau i goffau aberth y milwyr ac eraill a gollwyd mewn rhyfeloedd drwy'r byd. 'Roedd y gwasanaeth agoriadol o dan ofal Gwyn Hefin ac Ifanwy Jones. Darllenwyd Salm 46 a cherdd enwog Hedd Wyn 'Rhyfel'. I ni fel Cymry mae Hedd Wyn yn eicon am bopeth drwg, am ladd ac am ryfela, ac roedd nifer ohonom yn yr oedfa wedi cael cyfle i ymweld â lleoliad brwydrau yng Ngogledd Ffrainc a Gwlad Belg yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, gan mlynedd yn ôl. Dangoswyd lluniau o fynwentydd rhyfel mewn gwledydd dros y byd yr oedd Gwyn Hefin ac Ifanwy wedi ymweld â hwy: Ffrainc, Gwlad Belg, El Alamain yn yr Aifft, yr Iseldiroedd, Safle Nagasaki yn Japan a Katchanberi ger afon Kwai yng Ngwlad Thai. Dangoswyd llun

mynwent ryfel Bae Suda ar Ynys Creta, lle claddwyd un o fechgyn yr eglwys, Ellis Arfon Jones, brawd Jennie Angharad Roberts, yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Mae lleoliad a natur llawer o'r mynwentydd diweddar yn dangos fel y mae natur rhyfel wedi newid o'r brwydrau mawr fu yn Ffrainc i fod yn fyd-eang gyda phobl ddiniwed yn cael eu lladd gan derfysgwyr. Yng nghyswllt hyn dangoswyd lluniau o'r gofeb a adeiladwyd yn Efrog Newydd i gofio'r tair mil a laddwyd ar safle'r Ddaau Dwr.

Yn ystod y gwasanaeth ymunodd yr aelodau i ganu emynau cysylltiedig â'r thema o Caneuon Ffydd.

Yn ail ran y gwasanaeth, adroddodd Dafydd Ellis hanes trist David Ellis o Benyfed, Llangwm, sef bardd arall a gollwyd yn y Rhyfel Mawr ac na ddaethpwyd o hyd iddo - un a fu yng nghwmniaeth Lewis Valentine a Kate Roberts tra yn y Brifysgol. Tra ym Macedonia daeth i gysylltiad â Chynan a thybir fod y cysylltiad hwnnw wedi chwarae rhan yng nghyfansoddi'r Bryddest 'Mab y Bwthyn'.

Wrth droi i'r Ysgrythur,

cawsom ddwyn i gof gan Lowri Prys Roberts am y brwydro cyson fu rhwng cenedloedd yr adroddir amdanynt yn yr Hen Destament. Cafwyd darlleniad o Lyfr y Brenhinoedd am ryfel rhwng Israel a Syria a'r heddych rhyfeddol ddaeth i ran y ddwy genedl drwy law y proffwyd Eliseus, ond dros y cenedlaethau bu tiriogaeth y cenedloedd hynny yn feysydd brwydr hyd y dyddiau presennol. I derfynu'r gwasanaeth offrymwyd gweddi bwrpasol dros arweinyddion gwledydd ein dyddiau ni, y rhai ar faes y frwydr a'r dioddefaint sydd o ganlyniad i ryfeloedd a'r deisyfiad am heddych yn ein byd gan Huw Fôn Roberts.

Oedfaon Rhagfyr

7 am 5.30 Parch Reuben Roberts, Bontnewydd

14 am 2.00 Gwasanaeth i ddathlu Gwyl y Geni dan arweiniad y Gweinidog a'r aelodau gyda lluniaeth yn dilyn ym Mwyty Caban.

Cyfarchion Nadolig. Fe ddymuna Mrs Jennie Hughes, Bryn Parc ddymuno Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i'w theulu, ffrindiau a chymdogion. Ni fydd yn anfon cardiau eleni.

PROBLEM GYDACH CYFRIFIADUR?

Am wasanaeth cyfeillgar i ddatrys a **GWELLA** EICH CYFRIFIADURON CYSYLLTWCH A

GOMER ROBERTS

Cymorth a hyfforddiant amyneddgar i bob oedran er mwyn i chi fedru mwynhau defnyddio eich cyfrifiadur

(01286) 870462 Symudol-07962 712368

H. E. HUGHES

A'i Feibion

Bwthyn Gadlys Llanberis

GWERTHWR GLO ac OLEW GWRES CANOLOG

(01286) 870444

CYNGERDD CAROLAU

2 o'r gloch DYDD SUL RHAGFYR 21 2014

MYNYDD GWEFRU LLANBERIS

☆ Seindorf Arian Deiniolen
☆ Côr Meibion Dyffryn Peris
☆ Unawdwyr - **TRIO** ☆

MYNEDIAD AM DDIM

BYDD CASGLIAD AT ACHOSION LLEOL

COFNODION HYDREF 2014:

PRESENNOL ac YMDDIHEURIADAU:

Ward Padarn: Emlyn Baylis, Barry Davies, Eurig Druce, Iwan Harding, Bethan Holding (Cadeirydd), Derek Jones, Helen Sharp,

Ward Peris: Iola Owen, Gwenda Roberts, Hefyd yn bresennol: Dei Tomos (Clerc).

Ymddiheuriadau: Gwilym Evans, Olwen Gwilym, Dafydd Roberts, Trystan Thomas.

CADARNHAU COFNODION:

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod nos Fawrth y 23ain o Fedi, 2014 fel rhai cywir.

MATERION.

- Adroddwyd fod rhai, ond nid y cwbl, o'r coed yn Maes Padarn wedi eu torri.
- Croesawyd y bwriad i roi llinellau melyn dwbl i lawr o Bentre Castell tuag at y pentref ar ochr ddeheuol y ffordd.
- Coeden Nadolig Nantperis Mae'r goeden fel arfer yn rhoddedig, ac fe gysylltir y trydan fel cymwynas gan gwmni lleol. Cytunwyd i gydnabod yn ariannol y ddwy gymwynas gan eu bod yn gymwynasau blynyddol.
- Adwy Ffordd Haearn Penderfynwyd ceisio cael mwy o lechi a chael amcangyfrif o'r gost o'u gosod.
- Mainc Gan nad oedd GT yn barod i osod y fainc o flaen y Feddygfa oherwydd ei fod yn credu fod ceblau BT o dan y concrit cafwyd cynnig gan EB y byddai'n gyfrifol am ei gosod cyn belled a'i fod yn cael rhywun i'w gynorthwyo.
- Y We Awgrymwyd ceisio cael defnyddio patrwm gwefan rhywun arall. Yr awgrym oedd Cyngor Cymuned Llandwrog. Addawodd y Clerc wneud ymholiadau.
- Cysgodfan Bws Newydd Mae angen cysylltu a CG a dod a phamfledi i'r cyfarfod nesaf.
- Ffens Parc Bach Cytunwyd i ffensio ar hyd yr afon yn Parc Bach.

GOHEBIAETH:

1. UHY Hacker Young:

Derbyniwyd llythyr gan yr Archwilydd Cenedlaethol yn cyhoeddi Tysytysgrif Archwilio Ddi-amod, ond yn nodi fod gwerth yr Asedau Sefydlog yn ddigynfnewid er i'r Cyngor brynu Mainc yn y flwyddyn ariannol dan sylw.

2. Archwilydd Cyffredinol Cymru:

Derbyniwyd adroddiad Rheoli Ariannol a Llywodraethu mewn Cyngorau Lleol 2012-13.

3. CG - Adran Strategol a Gwella:

Llythyr yn nodi fod nifer o gyfarfodydd i'w cynnal i egluro maint yr her sy'n wynebu CG yn wyneb torriadau cyllidol sylweddol. Bydd cyfarfod ym Mangor, Tachwedd 20fed, yn Nhŷ Cwrdd y Crynwyr a Neuadd yr Esgob a

Phorthmadog,

Y Ganolfan ac Ysgol Eifionydd ar Dachwedd 24ain. Cyfarfodydd rhwng 1.30 - 4.30 a 6.00 - 8.00.

4. APCE - Newid i'r Map Hawliau Tramwy Diffiniol:

Mae bwriad i newid ychydig bach ar gyfeiriad dau lwybr ger copa'r Wyddfa, a) croesffordd llwybr march / ceffylau Snowdon Ranger - Llanberis (Plwyf Betws Garmon, llwybr 19/25); b) rhan uchaf llwybr Watkin (Plwyf Beddgelert, llwybr 4N). Cael cywirdeb rhwng y map a'r ddaear, er mwyn diogelwch ydi'r nod. Dim gwrthwynebiad.

5. CG Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant:

Llythyr yn holi am fanylion lleol wrth i CG baratoi a llunio Strategaeth Lletya Pobl Hŷn. Nid oes gan y Cyngor fanylion perthnasol i'w cynnig.

6. APCE - Grŵp Ffocws Gwasnaethau Cynllunio:

Gwahoddiad i anfon cynrychiolydd i'r Grŵp newydd yma sy'n rhan o Astudiaeth Gwella Llywodraeth Leol. Dyddiad 4ydd o Dachwedd am 6yh ym Mhencadlys APCE, Penrhyndeudraeth. Neb ar gael i fynd yno.

7. Aled Roberts AC:

Llythyr yn nodi fod Llywodraeth Cymru a'r Asiantaeth Cefnffyrdd yn cynnal adolygiad terfynau cyflymder ar ffyrdd Cymru. Yn y llythyr nodwyd na fu ymgynghori er i hynny gael ei addo gan Lywodraeth Cymru. Bwriad yr Aelod Cynulliad dros Ogledd Cymru ydi tynnu sylw at hynny rhag ofn bod barn leol yn cael ei cholli.

8. Clwb Ieuencid Llanberis:

Cais am gymorth tuag at Noson Guto Ffowc a than gwyllt sydd i'w gynnal gan y Clwb yn y pentref. Cytunwyd i gyfrannu £300.

9. Cynllun EFE:

Dyddiad Cyfarfod Blynyddol Cynllun EFE, croeso i bawb; 3ydd Tachwedd yng Nghapel y Rhos, 7.00yh

CYNLLUNIO:

Cyngor Gwynedd:

- C14/0891/15/LL - Creu storffeydd biniau ynghyd â gwaith cysylltiol - Dôl Eilian, Llanberis - Dim gwrthwynebiad, ond awgrymwyd peidio gwneud y storfa cadw biniau yn gauedig, rhag i blant fynd yno i fusnesu.
- C14/0943/15/LL - Codi modurdy dwbl - Bryn Mâl, Fron Goch, Llanberis - Dim gwrthwynebiad.

2. APCE:

- NP3/15/AD180D - Cais am Ganiatâd Hysbysebion i arddangos 1 panel gwybodaeth - Maes Parcio Gorsaf Rheilffordd yr Wyddfa, Llanberis - Dim gwrthwynebiad. Mae'r hysbysfwrdd yma yr un fath a'r tri a oedd dan sylw fis yn ôl o dan CG.

MATERION ARIANNOL:

a) Yn y Banc ar yr 28ain o Fedi, 2014

Cyfrif Cyfredol: £21,315.27

Cyfrif Cadw: £5,335.00

Taliadau: - £1,478.60

Derbyniadau: - £10,300.26


LLWYBRAU A'R FYNWENT:

1. Y Fynwent:

Cytunwyd i ganiatau claddu plentyn marw anedig yn y Fynwent gan fod un o'r rhieni o'r plwyf hwn. Gan fod hwn yn gais am fedd llawn cytunwyd mai'r pris allanol oedd yn addas.

2. Llwybrau:

Mae Lôn Las Peris yn dal ar gau, ond y gwaith o osod y bibell nwy newydd yn mynd rhagddo yn weddol hwylus.



GERAINT OWEN CARPEDI

CARPEDI • VINYL • TEILS
CANOEDD O BATRYMAU I DDEWIS
A RHAI MEWN STOCK

Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd
A Uned 5 Gwyrfaï Mill Bontnewydd

(01286)650552 Mob. 07712779475

CHIROPODYDD

RICHARD THOMAS SRCh/HPC

GALWADAU I'R CARTREF

Cysylltwch Symudol 0797 631 6487 • Tŷ 01758 612384

30 MLYNEDD
o waith yn y
GWASANAETH
IECHYD

Crynodeb o gofnodion Cyfarfod ychwanegol nos Fawrth, 21ain o Hydref 2014. Cynllunio. Cyfeiriodd y Cadeirydd at gais Gelli Gyffwrdd i osod cyfarpar ychwanegol a llawer o weithgareddau eraill ar y safle a dywedodd ei fod wedi trafod y cais gyda aelod Cyngor y Felin Heli. Mae tua 95% o'r safle yng nghymuned y Felin Heli. Trafodwyd y cais yn fanwl ganddynt ac nid oedd achos i'w wrthwynebu.

Gofynnodd y Cadeirydd am farn yr aelodau ac ar ôl trafodaeth penderfynwyd cefnogi'r cais ond amlygu pryderon ynglyn â'r ffordd at y safle. Mae'r ffordd yn gul ac nid oes digon o leoedd pasio ar ei hyd. Mae hefyd angen cael golwg ar gyffordd y ffordd yma â'r B4366 ger Gors Bach. Hefyd angen ail-baentio'r llinellau gwyn ar y gyffordd – adroddiad i Adran Cynllunio Gwynedd Ceisiadau am gymorth gan fudiadau'r gymuned, penderfynwyd ar gyfraniadau fel a ganlyn:

£300 yr un i Bwyllgor Neuadd Penisa'rwaun, Neuadd Bentref Rhiwlas, Eisteddfod Bethel, Eisteddfod Bentref Penisa'rwaun; £500 i Cynllun EFE, £400 i Seindorf Arian Deiniolen ac Eco'r Wyddfa; £200 yr un i Llyfrau Llafar Cymru. Clwb Snwcer, Deiniolen, Clwb Snwcer Bethel, Clwb Pêl Droed Ieuenctid Bethel; £150 yr un i Clwb Bro Bethel, Cymdeithas Lenyddol Bethel, Clwb Rhiwen, Rhiwlas a Ti a Fi Penisa'rwaun, Clwb Pensiynwyr Penisa'rwaun, Côr Cynfi, Deiniolen, Clwb Ffermwyr Ifanc Caernarfon; £100 i Llais Ogwan. £400 fel un cyfraniad i Ymatebwyr cyntaf dalgylch Caernarfon

Crynodeb o gofnodion Cyfarfod y 7ed o Dachwedd 2014

Gweddi. Offrymwyd y weddi agoriadol gan Y Canon Idris Thomas.

Swydd Clerc. Cyfwelwyd Mrs Eleri Bean gan y Cadeirydd, Phyllis Ellis a Geraint Elis cyn y cyfarfod a chafwyd adroddiad o'r cyfweiliad gan y cadeirydd. Penderfynwyd cynnig y swydd i Eleri.

Llongyfarchion. Cyfeiriwyd at lwyddiant Richard Llwyd Jones yn ennill cadair Eisteddfod Felindre ger Abertawe.

Materion o'r cofnodion

Cysgodfa Bws, Deiniolen. Dywedodd y Clerc bod Mr Berwyn Jones, Deiniolen, wedi tynnu'r braced oddi ar y gysgodfa yn rhad ac am-ddim – llythyr o ddiolch iddo.

Cwrs Un Llais. Dywedodd Phyllis Ellis a Hefin Williams iddynt fynychu'r cwrs ond nid oedd yn berthnasol i ofynion aelodau Cyngor fel Llanddeiniolen. Derbyniwyd cost y cwrs o £30.

Sefydlu Gwefan i'r Cyngor. Cyfeiriodd y Clerc at gynnis Llywodraeth Cymru o grant at sefydlu gwefan. Penderfynodd y Cyngor fanteisio ar gynnis Cyngor Gwynedd ym Mis Mawrth 2014 i weithredu ar ran Cyngorau Cymuned y Sir. Mewn llythyr dyddiedig y 3ydd o Dachwedd dywed Gwynedd nad yw hynny bellach yn bosibl ond heb ddweud pam. Derbyniwyd ffurflen eto oddi wrth Wynedd i geisio am wefan i'r Cyngor. Hefyd, cais gan Jiwn – clerc Cyngorau Pentir, Beddgelert a Betws Garmon i'r Cyngorau Cymuned weithio gyda'i gilydd a chael rhywun i wneud y gwaith cychwynnol ar eu rhan. Atebwyd Jiwn yn gadarnhaol ond

penderfynwyd cwblhau ffurflen Gwynedd hefyd.

Mudiadau gwirfoddol. Derbyniwyd diolch am y rhodd oddi wrth Eco'r Wyddfa a Llyfrau Llafar Cymru.

- Neuadd Goffa Bethel – cafwyd addewid am fantolen gyflawn gan Siôn Jones ac ar yr amod hynny penderfynwyd clustnodi £300 at y Neuadd.

Gohebiaethau a materion eraill

Gwaharddiad parcio, Ffordd Bryn Hyfryd, Penisa'rwaun. Cyflwynwyd copi Hefin Williams o'r gwaharddiad a thrafodwyd bwriad Cyngor Gwynedd, gan na dderbyniwyd copi gan y Cyngor nid oedd angen ymateb.

Trwydded diodydd, Neuadd Goffa Bethel. Trafodwyd y cais yn fanwl gan amlygu pryder ynglyn â:

Oriau agor y neuadd ar gyfer gwerthu diod

Bwriad y drwydded

Ei heffaith ar "Y Bedol"

Diffyg tystiolaeth, un ffordd na'r llall, o'r angen am drwydded

Dim ond un ymddiriedolwr sydd i'r Neuadd

Fel arfer, cynrychiolir holl fudiadau pentrefar bwyllgor Neuadd. Ymddengys bod Neuadd Bethel yn brin o hynny.

Beth yw agwedd pentref Bethel.

Dywedwyd mai mater i bentref Bethel yn hytrach na'r Cyngor Cymuned yw caniatáu'r drwydded neu beidio. Ychwanegwyd y dylid cofio mai Neuadd Goffa ydyw Nid yw'r cyfeithiad "Community Hall" ar y ffurflen gais yn gywir.

Penderfynwyd anfon llythyr i Siôn Jones ac i Wynedd i ddweud nad oedd modd i'r Cyngor bleidleisio ar y mater oherwydd diffyg tystiolaeth un ffordd na'r llall o'r angen am drwydded. Mater i bentref Bethel yw caniatáu trwydded neu beidio.

Cynllunio. Ceisiadau a dderbyniwyd:

4 Tai Newyddion, Penisa'rwaun – estyniad deulawr i ochr a chefn yr eiddo Gwynllys a Bodwyn, Saron, Bethel – dymchwel dau dy teras a chodi 2 dy newydd yn eu lle.

9, Y Ddôl, Bethel – estyniad.

O gwmpas y Bwrdd

Phyllis Ellis – cyflwr wyneb y ffordd o Ty'n Felin i Crawiau yn ddifrifol – llythyr i Wynedd.

Aled Green – dwr yn sefyll ar y ffordd, Tan Gaer i King Arthur – llythyr i Wynedd

Carolyn Roberts – y ffordd ger Cae Chwarae a ger yr hen Gapel, Brynrefail, mewn cyflwr drwg – llythyr i Wynedd

Idris Thomas – Angen gweithredu ar "Her Gwynedd" – posibilrwydd i'r Cyngor yma gymryd drosodd rhai o weithgareddau Gwynedd? Ymateb erbyn cyfarfod Rhagfyr.

Hefin Williams – ceir yn parcio ger Llys Gwynt, Llandygai. Mae hwn yn safle pwysig i weithwyr gyd-deithio, dylai Gwynedd wella ei gyflwr neu gael lleoliad cyfleus arall.

Aled Green – hefyd parcio Llys Gwynt, mae pedwar person o'r gymuned yma yn cyd-deithio i Ynys Môn a thri arall i gyfeiriad Llandudno yn ddyddiol o'r safle yma, sy'n arbed cannoedd o filltiroedd y flwyddyn – llythyr eto i Wynedd.

Elfed Williams – arwydd pren i lwybr rhif 46 dros y Ffordd i Maes Eilian, Dinorwig, wedi torri – llythyr i Wynedd.

Jane Pierce – Wardeiniaid traffig yn barhaol ar y Maes, Caernarfon, ac yn frith yn Llanberis yn ystod ras yr Wyddfa. Ymwelwyr â'r ardal yn cael tocynnau parcio di-rif – cwyn i Wynedd

ECO'r Wyddfa

**Cefnogwch
ein
hysbysebwy**


POSH PAWS



TACLUSO CWN
Busnes Newydd Lleol

**PRYNHAWNIAU neu
NOSWEITHIAU 4-10**
DYDD SUL 8yb-4yp
Gwasanaeth Casglu a Danfon

Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen
(01248) 671382 • 07935324193
ebost- juliaposhpaws@btinternet.com



FFRAMIA
Parc Padarn Llanberis
(01286) 870922

Gwasanaeth FFRAMIO LLUNIAU

DEWIS EANG O LUNIAU YN YR ORIEL AC AR Y WEFAN
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwyr

www.ffmpegia.com

Mewn cyfarfod o Gyngor Cymuned Llanrug a gynhaliwyd ar y 28ain o Hydref 2014 fe wnaed y penderfyniadau canlynol:

- Derbyn yn unfrydol gais Mr Philip Roberts i fod yn aelod o'r Cyngor yn dilyn hysbyseb yn Eco'r Wyddfa.
 - Yn dilyn trafodaeth ar gynllun arafu traffig y Cyngor Sir ar gyfer Ffordd Glanmoelyn a'u bod yn gofyn am gyfraniad o £2000 gan y Cyngor Cymuned tuag at y gost o rhwng £5000 a £6000, lleisiwyd pryder os byddai'r Cyngor Cymuned yn cytuno i gyfrannu tuag at y gwaith, yna a fyddai'r Cyngor Sir yn disgwyl i'r Cyngor Cymuned gyfrannu tuag at brosiectau eraill. Roedd hefyd amheuaeth a oedd gan y Cyngor Cymuned hawl i gyfrannu tuag at brosiectau cyffelyb. Penderfynwyd cymeradwyo'r cynllun ond cysylltu â Un Llais Cymru i gael barn a chynghor annibynnol os byddai gwneud cyfraniad o'r fath yn gyfreithlon.
 - Adroddwyd fod problem gyda defaid yn mynd i'r fynwent ac nad oedd pobl yn cau'r giatiau. Penderfynwyd rhoi neges yn y Caernarfon and Denbigh Herald ac Eco'r Wyddfa, a gofyn i'r Rheithor wneud cais yn y gwasanaeth, i annog pobl i gau'r giatiau. Hefyd rhoi arwyddion newydd ar y giatiau a gofyn i'r Ymgymerywyr sicrhau fod giatiau i'r fynwent yn cael eu cau ar ôl angladdau.
 - Adroddwyd fod problemau yn parhau gyda'r gwaith ar gae chwarae Glanmoelyn.
- Penderfynwyd cysylltu â Chymdeithas Tai Gogledd Cymru i edrych beth yw'r sefyllfa ddiweddar.
- Adroddwyd fod rhai o'r Cynghorwyr wedi cerdded rhai o'r llwybrau cyhoeddus a bod angen delio gyda nifer o broblemau arnynt. Penderfynwyd gofyn i'r Swyddog Llwybrau Cyhoeddus ddod i gyfarfod o'r Cyngor i'w trafod.
 - Gan fod nifer o geisiadau cynllunio ar gyfer adeiladu tai newydd nawr yn seiliedig ar i'r adeiladwr adeiladu 'tai fforddiadwy', penderfynwyd gofyn i Swyddog o Adran Cynllunio'r Cyngor Sir ddod i'n cyfarfod i esbonio beth yw eu diffiniad o 'dai fforddiadwy'.
 - Adroddwyd fod y Cyngor wedi cael cynnig coeden sydd wedi gor-dyfu yng ngardd un o'r pentrefwyr fel Coeden Nadolig eleni. Penderfynwyd derbyn y goeden gyda diolch.
 - Adroddwyd fod nifer o blant o Ysgol Brynrefail yn taflu ysbwriel ar y llawr ar Ffordd yr Orsaf er fod biniau ar gael. Adroddwyd fod hyn yn waeth ger mynedfa Stad Nant y Glyn. Penderfynwyd i gysylltu â'r Prifathro a gofyn iddo ddwyn hyn i sylw'r disgyblion.
 - Adroddwyd fod Cyngor Gwynedd wedi cytuno i roi llinellau melyn o

T? Fry hyd at Ystrad ar Ffordd yr Orsaf. Hyd yma nid ydi'r llinellau wedi eu gosod. Penderfynwyd gysylltu ac Adran Prifffyrdd, Cyngor Gwynedd i ddilyn y mater i fyny.

- Penderfynwyd cysylltu â Chyngor Gwynedd i holi am y biniau baw c?n y gofynnwyd amdanynt beth amser yn ôl.
 - Adroddwyd fod yr arwydd "Ildiwch" ym Mhont Rug yn fficro a bod angen dwyn ei sylw tuag at Gyngor Gwynedd.
 - 'Doedd dim gwrthwynebiad i'r ceisiadau cynllunio canlynol:
 - Ail leoli ffens diogelwch - Gorsaf Trin D?r, Llanrug.
 - Dymchwel modurdy a'r estyniadau presennol a chodi estyniadau newydd yn eu lle - 6, Gwelfynydd, Llanrug.
 - Addasu modurdy i d? yn cynnwys estyniad i greu llawr cyntaf - Alexandria, Cwm y Glo.
 - Adeiladu t? deulawr, Tir yng nghefn Isfryn, 6 Rhythallt Terrace, Llanrug
 - Codi adeilad amaethyddol - Cefn Llwyd, Cwm y Glo.
 - Addasu ac uwchraddio'r bloc amwynderol presennol ar gyfer cwsmeriaid y parc carafannau teithiol, Maes Carafannau Plas Gwyn, Ffordd Llanberis, Llanrug.
 - Estyniad Llawr Cyntaf, 11 Bryn Moelyn, Llanrug
 - Newid dyluniad tai llain 1-2 a 5-6 i gyd weddu â dyluniad y tai lle cyn 3 a 4 - Tir ger Parc Isaf, Llanrug.
- Yn sgil y trafodaethau ar y ceisiadau uchod, cafwyd trafodaeth ar bolisiau cynllunio Cyngor Gwynedd ac sut yr oeddynt yn ymddangos yn annheg a bod diffyg cysondeb rhwng rhai penderfyniadau. Penderfynwyd ysgrifennu i Gyngor Gwynedd yn lleisio barn fod Llanrug yn derbyn gormod o dai o'r un math, sydd yn dai fforddiadwy a bod diffyg sylweddol o dai llai er mwyn i bobl symud pryd nad oes angen t? mawr. Dylid lleisio barn y Cyngor nad yw anghenion a gofynion y pentref yn cael eu hadnabod. Mae hyn hefyd yn cael effaith ar yr Ysgol Gynradd, sydd ar hyn o bryd bron iawn yn llawn, ac ar wasanaethau angenrheidiol eraill fel y ddwy feddygfa.
- Derbyniwyd restr fanwl o'r beddi sydd yn y fynwent a diolchwyd yn fawr iawn i Emma Williams am ei gwaith trylwyr a wnaed. Roedd yn hanfodol fod y gwaith yma yn cael ei barhau.
 - Penderfynwyd cysylltu â'r Adran Prifffyrdd am barcio tu allan i fodur ar y ffordd i fewn i Cwm y Glo ac ar y ffordd i fyny o Glyntwrog i Bryngwyn sydd yn achosi problem i drafnidiaeth.
 - Penderfynwyd llogi platfform i alluogi i'r goleuadau Nadolig gael eu gosod yn ddiogel

Gwasanaeth Gwres a Plymio

Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser

Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig • Bethel • LL55 1UW
Tel. (01248) 674927 Mobile- 07798 746718

Cynnal a Chadw Gerddi ac Adeiladau

TORRI GWAIR/ GWRYCHOEDD/ COED
PLANNU • CHWYNNU • PEINTIO • GWAITH COED
PLASTRO • GOSOD CEGINAU *AMCANGYFRIF AM DDIM*

Sion Roberts ▶ 07759415753
3 CARADOG PLACE • DEINIOLEN • LL55 3H5

BOSCH Service

Car Service

www.a-v-w.co.uk
01286 673559

CIBYN IND EST. CAERNARFON LL55 2BD
SAFON UCHEL Y GALLWCH EI DRYSTIO
ARBENIGWYR AR GEIR SWEDEN A'R ALMAEN
CEIR, CAMPERS A FANIAU

AA MOT **ATC** **Shell** **BOSCH Car Service**

ECO'r Wyddfa

O'r Cynghorau Cyngor Cymuned Waunfawr

Cynhaliwyd cyfarfod Cyngor Cymuned Waunfawr yn Festri Capel y Waun am 7.15 yh ar 10/09/2014. Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd.

Gerddi Bach – Trafodaethau yn mynd ymlaen, edrych ar gynlluniau i'r safle ar gyfer y dyfodol.

Materion Caeathro – Bws ysgol o Gaeathro i Bontnewydd wedi dod i ben erbyn hyn. Aros i Gyngor Gwynedd gynnal ail asesiad o'r ffordd cyn symud ymlaen ymhellach.

Maes parcio Bryn Gwna – angen ei glirio, aros i weld beth yw dyfodol y safle.

Cylchfan Caeathro – gwyneb y ffordd yn anwastad iawn yn dilyn y gwaith yn ddiweddar. Mewn trafodaeth a Chyngor Gwynedd.

Materion Waunfawr – Cyflwr y ffordd o Waunfawr i Gaernarfon angen sylw. Cyfarfod ar y gweill rhwng Cyngor Gwynedd a Chynghorwyr. Gwaith tarmacio o flaen y Ganolfan – y gwaith i gyd wedi ei gwblhau. Wedi gofyn i Gyngor Gwynedd am asesu lefel y traffic ar hyd ffordd ger Bro Waun.

Cyflwr y llochesau bws, - Safle bws ger yr hen bost yn cael ei adnewyddu yn fuan.

Y Fynwent - Gwaith peintio y ffens a thacluso a thorri coed yn mynd ymlaen.

Llwybrau troed - Cyngor Gwynedd wedi cwblhau y gwaith o adnewyddu y llwybr ger Pant Gwyn i Bryn Gwynedd.

Aelodaeth y Cyngor Cymuned - Brafyw cael adrodd fod pob sedd ar y Cyngor Cymuned wedi ei llenwi bellach. Dyma restr o'r Cynghorwyr Cadi Jones – Cadeirydd, Terry Parry – Is Gadeirydd,

Waunfawr - Sali Burns, Delyth Jones, Edgar Owen, Eurig Wyn, Iwan Davies, Erddin Llwyd, Mathew Gosset,

Caeathro – Llio Gwyn Jones, Hannah Hughes.

Materion eraill a godwyd yn ystod y cyfarfod:-

- Problem baw ci yn Waunfawr a Chaeathro – os gwelwch yn dda wnaiff pawb lanhau a'r ôl eu cŵn er mwyn trio cadw'r pentrefi yn dachus.

- Cyngor Cymuned Betws Garmon – gofyn am gefnogaeth ynglŷn â chyflwr y ffordd o Waunfawr i Beddgelert.

- Gofyn i Gyngor Gwynedd oes posibl cael llwybr troed ar y darn o wair rhwng Stad Llys y Waun a Bryn Melyn.

Bydd y cyfarfod nesaf o'r Cyngor Cymuned, 3ydd o Ragfyr yng Nghanolfan Waunfawr

Un funud fach ...

Y GWIRA'R GAU

Mae pawb yn hoffi bargaen, a bydd y bobl sy'n cynhyrchu a gwerthu nwyddau ffals yn gwneud eu gorau glas i fanteisio ar hynny o hyn i'r Nadolig. Mae'r heddlu a swyddogion Safonau Masnach yn ein rhybuddio i fod yn effro rhag cael ein twyllo i brynu nwyddau ffug gan dybio ein bod yn cael bargaen ryfeddol. Ymhlith y nwyddau hynny bydd dillad, bagiau, oriorau, teganau, persawr, sigarêts, diodydd a nwyddau electroneg o bob math. Yn aml iawn, bydd llawer ohonynt nid yn unig yn anghyfreithlon ac o ansawdd gwael ond hefyd yn ddiffygiol a pheryglus.

Gwelais yn ddiweddar fwy nag un cyfeiriad at y broblem hon, ac mae'n dda bod rhywrai'n tynnu sylw ati er mwyn ein rhybuddio rhag prynu nwyddau amheus a geir yn aml am brisiau anghyffredin o isel. Ac eto, doedd yr un o'r eitemau a welais yn rhoi cymorth gwirioneddol. Y cwbl a wnaeth un rhaglen deledu, er enghraifft, oedd dangos y drafferth a gâi rhai pobl i wahaniaethu rhwng nwyddau go iawn a nwyddau ffug. Hyd y gwelaf, y cyngor gorau – o bosibl yr unig gyngor – yw hwnnw sy'n ein siarsio i brynu nwyddau gan siopau a gwerthwyr dibynadwy.

Roedd Iesu Grist yn gyfarwydd â'r syniad o'r gwir a'r gau. Er enghraifft, soniodd ar ddiwedd y Bregeth ar y Mynydd am ddau dŷ tebyg i'w gilydd yn allanol. Sylfaen y naill a'r llall oedd yn wahanol ac yn peri bod un yn sefyll a'r llall yn syrthio yn nannedd y storm. Ac ychydig frawddegau cyn hynny, cyfeiriodd at y 'gau broffwydi, sy'n dod atoch yng ngwisg defaid, ond sydd o'u mewn yn fleiddiaid rheibus' (Mathew 7:15). Roedd Iesu'n cydnabod, felly, bod y fath beth â disgyblion ac arweinwyr gwir a gau ym myd crefydd, a hyd yn oed o fewn ei Eglwys. Ond sut mae gwahaniaethu rhyngddynt? Sut allwn adnabod gwir ddilynwyr Iesu Grist a gwir arweinwyr ei bobl heddiw? Yn yr un ffordd yn union ag y dywed Iesu yma yn y Bregeth: 'Wrth eu ffrwythau yr adnabyddwch hwy'. A beth yw'r ffrwythau? Credu geiriau Duw; caru'r Iesu sydd wedi'n caru ni; pwyso ar aberth Iesu drosom ar Galfaria; ceisio ufuddhau i orchmynion ac esiampl Iesu; cydnabod angen am nerth yr Ysbryd Glân; glynu wrth bobl Dduw o fewn teulu'r Ffydd; ymdrechu i garu a gwasanaethu pobl eraill; dyna'r math o bethau sy'n nodweddu'r gwir. A dyna a olygai Iesu wrth iddo sôn am y sylfaen gadarn a geir wrth 'wrando ar y geiriau hyn o'r eiddod a'u gwneud'.

JOHN PRITCHARD

"FFONIWCH DIONI I GAEL
'BWCINGS' YCHWANEGOL
DROS Y GAEAF"

tel: 01341 247 200
ebost: gwion@dioni.co.uk



WAVELL'S

Bryn Ac Angela Williams

**London House
LLANRUG**

**PEN
CIGYDDION
Y FRO**

YR WYN LLEOL MWYAF BLASUS
SELSIG CARTRE
CIGOEDD PAROD I'W BWYTA
ARCHEBION AR GYFER Y RHEWGIST
**MYNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!!**

(01286) 673574

**RHOSTIO
MOCHYN**

Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau

**AR GYFER
POB
ACHLYSUR**


DEWGS MAE
O'N FLASUS

PARTION • PRIODASAU • PEN BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIU
CIG O FFERMYDD LLEOL
PARTION RHWNG 40-400!

Cysylltwch a
**John Brynafon
LLANRUG**

www.ydyncig.co.uk

675190 • 673188
Symudol- 07798 718188



Ar ben arall i'r lein

Adroddiad y Cadeirydd am 2014

Mae'n fis Hydref wrth i mi ysgrifennu, ac wedi "haf codi tatws" mis Medi, mae glaw a llond yr afonydd o ddwr ar diwedd tymor 2014.

Doedd dim sychder ar ddechrau'r tymor, a brithyll i'w dal, ac ambell 'sgodyn bras wedi dod i law i aelodau hen ac ifanc. Ymddengys bod brithyll yr Afon Seiont yn eithaf iach, ac yn wir daliwyd pysgod braf o Llyn Padarn wrth i'r tymor fynd yn ei flaen, yn arbennig gan aelodau oedd yn 'sgota ymlaen yn y gwyll. Roedd Llyn Cwellyn, a Llyn Nantlle eto wedi pysgota'n dda yn ystod y gwanwyn, a'r hwyl yn parhau gyda naid fin nos 'ar ddiwedd dyddiau hirfelyn tesog' yr haf.

Mae Llyn Dywarchen, wrth gwrs, yn cynnig brithyll gwyllt a brithyll enfys i'n haelodau ac ymwelwyr, er bod costau sylweddol i'r Gymdeithas i'w redeg. Mae gwaith ac ymroddiad criw o'r aelodau sydd wrthi y tu ôl i'r lleni yn gwarchod a stocio'r llyn yn cynnal y pysgota, eto eleni cawsom weld gwir werth eu hymdrechion. Roedd safon y pysgod a ddaliwyd yn arbennig, ac ymddengys bod y tywydd wedi hybu eu tyfiant gyda rhai slabia braf yn dod i'r rhwyd tuag at ddiwedd yr haf.

Roedd diffyg glaw yn amharu ar y Llyfni, a physgod yn brin ym mhyllau'r afon i ddechrau. Ond wrth i'r wythnosau dreiglo, rhaid oedd i'r sewin fentro o'r môr, ym mis Medi roeddynt ar brydiau yn gwau drwy'i gilydd a heigiau mwy na welsom ers tro ym Mhontllyfni. Roedd gwyniada'n tynnu yn oriau'r nos gyda rhai pysgod da yn eu mysg, roedd rhai eogiaid hefyd yn dilyn yr ychydig ddwr a gafwyd.

Roedd angen llif ar yr Afon Gwyrfa'i ond daeth eog a sewin i ambell aelod cyfrwys pan welwyd y cyfle. Efallai nad yw'r Gwyrfa'i bob tro yn disgleirio ymysg ein dyfroedd ond mae ambell un yn ei dallt hi'n iawn.

Ar Afon Seiont segur fu sawl genwair eog drwy'r rhan helaeth o'r tymor, yn sicr mae'r sychder wedi cyfyngu ein cyfleoedd i daflu'r bluen fawr i hudo'r crwydryn arian. Ond eleni bu mwy o aelodau yn pysgota'r Seiont yn benodol am ei sewin, a cafwyd cryn dipyn o hwyl ar y nosweithiau anturus dan frigau deiliog y coed ar ei glannau. Roedd mwy o sewin i'w gweld. Mae'n bosib bod mwy yn 'sgota felly mwy yn dal, ond roedd rhyw deimlad fod pethau yn dechrau gwellau go iawn. Ynteu rhyw obaith gwag oedd hyn? Oherwydd pan gafwyd dwr o'r diwedd wedi'r Medi sychaf ers degawdau a physgotwyr yn heidio at lan yr afon, doedd dim golwg o'r eog. Mewn tymor oedd wedi ei gywasgu i rhyw gwaith bythefnos o lif go iawn, dim ond llond dwrn a welwyd, heb sôn am eu dal. Dyma'r ail dymor yn olynol i'r eog fethu'n llwyr. Yn naturiol mae rhywun yn poeni'n arw bod hyn yn adlewyrchu llygredd Llyn Padarn a'r afon bum mlynedd yn ôl. Roedd archwiliadau gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystod yr haf yn brolio bod yr eogiaid ifanc yn dew yn rhai o'r nentydd ond tenau iawn oedd hi ar lannau rhai o'n hoff byllau ar hyd yr afon.

Cafwyd blwyddyn brysur i'r Gymdeithas ar wahân i'r pysgota, gyda rhai ffactorau yn ein herbyn ond hefyd rhywfaint o newyddion da. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) wedi bodoli ers blwyddyn bellach, a ninnau'n ceisio sefydlu perthynas lewyrchus rhwng y corff newydd yma a'r Gymdeithas. Ym mis Mawrth cafwyd cyfarfod gyda sawl asiantaeth i benderfynu sut i symyd ymlaen i adfer Llyn Padarn a'r pysgodfeydd. Bu trafod a threfnu ond yn y saith mis ers y cyfarfod yr unig waith sydd wedi ei gyflawni yw palu'r graean ym Mhenllyn - yng nghanol mis Hydref!

Daeth y newyddion bod stocio eog a sewin i ddarparu yn ddisymwth drwy Gymru gyfan. Mae cytundeb i stocio eog ar y Seiont i ddiwallu effaith gwaith Dinorwic ar y nentydd ymhle'r arferai eog a sewin yr afon gladdu, ond bellach, dywed CNC, dyna ddiwedd ar y cynllun a'r gost honno. Bu achos i ni gwyno yn erbyn CNC eto ym mis Medi pan benderfynasant bod y sewin yn Llyn Lan y Môr mewn peryg o

gael eu potsio, felly heb unrhyw drafodaeth gyrrwyd peiriant dros ein tîr i agor ceg y pwll ac aeth y dwr a'r pysgod yn ôl i'r môr - ar ganol ein cyfnod mwyaf prysur o 'sgota'r nos.

Busôn bod potsio'n digwydd yn ystod yr haf, a physgota anghyfreithlon yn Dywarchen. Mae Tim Troseddu Cefn Gwlad yr heddlu bellach yn cynnig swyddogion troseddau amgylcheddol - sef:

Swyddog troseddu Cefn Gwlad PC 2699 Dewi Evans
07827306179 dewi.evans@nthwales.pnn.police.uk

Swyddog troseddu amgylcheddol PC 1847 Eryl Lloyd 07776494335
eryl.lloyd@nthwales.pnn.police.uk

Wedi ymateb sarhaus Dwr Cymru i'r adroddiadau am gyflwr Padarn a diffyg ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru fe aeth y Gymdeithas i'r llys gyda Fish Legal yn gweithredu ar ein rhan. Penodwyd y cyntaf a'r ail o Fai ar gyfer y gwrandawriad, sef adolygiad barnwrol o benderfyniad CNC o'r hyn yr oedd yn rhaid i Ddwr Cymru gydnabod oedd o'i le. Cofiwch, nid erlyn y rhai a achosodd y llygredd oedd hyn, ond yn hytrach achos yn erbyn y corff sydd i fod yn amddiffyn ein dyfroedd! Yn hwyr ar y noson cyn yr achos daeth y newyddion bod CNC yn derbyn holl bwyntiau Fish Legal, bod ein achos wedi ei ennill ac nad oedd gwrandawriad i fod.

Roedd hon yn fuddugoliaeth enfawr i'r Gymdeithas ac mae ein dyled yn fawr i Fish Legal a'n hysgrifennydd oedd wedi ymdrechu am flynyddoedd ar ein rhan. Mae pawb yn gyfarwydd efo'r beipan carthion sydd yn rhedeg i'r llyn ger y "clyb" yn Llanberis - ond nid oedd hwn wedi ei ystyried o gwbl yn yr adroddiadau diweddar am nad oedd Dwr Cymru yn cydnabod ei fod yn bod. Roedd yr adroddiad yn dweud fod y "broses cyfreithiol" bellach wedi datgelu bodolaeth y beipen a'i chyfraniad at y llygredd dros y blynyddoedd. Rydym wedi tynnu sylw at y llygredd ers ugain mlynedd ond mae'n rhaid dweud bod ein sylwadau wedi eu diystyru a'u bychanu. Bellach mae achos llys a'r gyfraith yn ategu ein cwynion. Dim ond y cam cyntaf ydi hwn, ond ymddengys y bydd gorfodaeth ar yr awdurdodau i ymateb a gweithredu i achub Llyn Padarn. Yn anffodus, wrth gwrs mae rhwystr ar ôl rhwystr yn cael ei bentyrru o'n blaen i arafu'r broses, ond ymlaen yr awn.

Codwyd glanfa i'r "wheelyboat" ar lan Llyn Dywarchen-gyda'r gwaith wedi ei gyflawni'n drefnus a phrydlon gan y contractwyr, sydd yn rhoi cyfle i bysgotwyr anabl fwynhau a phrofi gwefr 'sgota'r llyn o'r cwch. Fel rhan o'n cyfraniad at waith Ymddiriedolaeth Afonydd Conwy, Clwyd a Gwynedd trefnwyd rhaglen magu eog yn Ysgol y Bontnewydd a fu'n lwyddiant mawr yn ôl y staff a'r disgyblion. Hefyd cafodd y Gymdeithas stondin ar gae carnifal Bethel lle bu cyfle i bobl o bob oed weld rhai o'n gweithgareddau a chymeryd rhan. Diolchwn i'r aelodau a fu wrthi efo'r gweithgareddau yma. Diolchwn hefyd i'r hogia sydd wedi sefydlu tudalen "Facebook" i'r Gymdeithas (<https://www.facebook.com/SGLLCYMRU>) sydd wedi ennyn cryn ddiddordeb. Mae hanesion a lluniau ein gweithgareddau i'w gweld yno ac ar ein gwefan: (<http://www.sgll.co.uk>).

Diolchaf ar eich rhan bawb sydd wedi cyfrannu at weithgareddau'r Gymdeithas yn ystod y flwyddyn, y trysorydd, y cyfarwyddwyr ac aelodau'r pwyllgor, yn ogystal â'r rhai sydd yn weithgar yn clirio a chynnal y glannau a'r cychod, a threfnu tocynnau i'r siopau. Hoffwn ddiolch yn arbennig ar ddiwedd y flwyddyn i'r ysgrifennydd am ei waith yn 2014.

Ar ran y Pwyllgor a'r swyddogion hoffwn gynnig y dymuniadau gorau i chi a'ch teuluoedd dros y Nadolig a'r flwyddyn newydd a phob hwyl gyda'r enwair yn 2015.

Dr. Robin Parry

CANU AM EU SWPER: SWPERAM EU CANU



Douglas Williams (chwith) a Gareth Thomas (dde) – prif drefnwyr cinio blynyddol Côr Meibion Caernarfon.

Mae aelodau corau meibion yn gwneud llawer mwy na chanu. Wedi dychwelyd o ymweliad llwyddiannus â Galway yn Iwerddon mae dau aelod o Gôr Meibion Caernarfon rwan yn brysur baratoi at ginio blynyddol y côr yn y flwyddyn newydd. Y ddau yw Douglas Williams o Bontnewydd a Gareth Thomas o Lanrug, aelodau o adran tenoriaid uchaf y côr. Gyda chymorth Edwin Williams o Frynsiencyn, un o'r baswyr cyntaf, maent wedi hen arfer trefnu'r cinio blynyddol. Nid dim ond y lleoliad, y bwyd a'r adloniant sydd ar eu plât. Fel rhan o'r digwyddiad maent yn codi arian sylweddol at achosion da. Meddai Gareth, 'Eleni casglwyd £328.65 at Sefydliad Prydeinig y Galon. Y llynedd a'r flwyddyn cynt cyflwynwyd rhoddion anrhydeddus i Ambiwylans Awyr Cymru ac Ymchwil Cancr.' Medd Doug, 'Rydym yn ddiolchgar iawn i bawb sy'n rhoi eitemau i'w rafflo ac yn prynu'r tocynnau. Byddwn ar eich ôl eto cyn bo hir i gefnogi elusen 2015.' Meddai Cadeirydd y Côr, Bryn Griffith, 'Mae nosweithiau difyr a drefnir dan arweiniad Gareth a Doug yn enghraifft dda o'r hwyl cymdeithasol a geir, yn ogystal â'r canu a'r cyngherddau da. Ychwanegodd, 'Hoffai Côr Meibion Caernarfon fedru cystadlu yn adran y corau mawr yn Eisteddfod Genedlaethol Maldwyn a'r Cyffiniau ym Meifod fis Awst nesaf. Rydym felly yn awyddus i ddenu tua deg o aelodau newydd. 'Does yr run côr mawr o'r ardal hon wedi cystadlu yn yr adran yma'n ddiweddar, ac mae'n bryd i hynny newid.'

Antur i'r Eithaf Eric Jones

• Mae disgwyl mawr wedi bod ar draws y byd am atgofion Eric Jones y dringwr a'r anturiaethwr; mae yntau wedi penderfynu cyhoeddi'i gyfrol yn Gymraeg yn gyntaf. Ni yw hynny'n syndod o gofio ei fod wedi cario'r Ddraig Goch i fannau lle na bu'r faner erioed o'r blaen!

• Yn ôl Llion Iwan, awdur cyflwyniad y gyfrol: 'Mae'n meddu llond trol o synnwyr cyffredin a dyna sy'n rhannol egluro ei fod yn dal yn fyw ac yn iach ac yn nesu at ei bedwar ugain mlwydd oed.'

Cyhoeddi Hunangofiant un o Ddringwyr Mawr y Byd

Y mis hwn, cyhoeddir cyfrol drwchus o atgofion Eric Jones am ei anturiaethau yn dringo rhai o ddringfeydd anoddaf y byd; hedfan mewn balwn dros Everest; awyrblymio a pharasiwtio i lawr clogwyni rhaeadrau a thros bontydd uchel. Dyma'r dyn a ddathlodd ei dri chwarter canrif drwy yrru moto-

y CYNLLUN CERDDED A DARGANFOD
the WALK AND DISCOVER PROJECT

menter fachwen

RHIF ELUSEN / CHARITY NUMBER: 701163

www.menterfachwen.org.uk

CYFENTER CAERNARFON

MENTER Môn

CYMRU GWYBODAETH

ERDF

TEITHIAU CERDDED MENTER FACHWEN
RHAGFYR

Gwener 5 Rhagfyr 10.00yb
Stad y Faenol a Treborth
(3½ milltir)
Cychwyn: Parc Britannia (Premier inn), Parc Menai, Treborth.
Cymhedrol. Sgidia cerdded.


Mercher 17 Rhagfyr
Ffair dolig a diwrnod agored
Canolfan cerdded a darganfod, Menter Fachwen.
Ty caxton, Stryd fawr, Llanberis.
Ffoniwch Menter Fachwen ar 01286 872014 am ragor o fanylion.

Llun 8 Rhagfyr 7.00Yh
Bangor yn yr oesoedd canol (2 milltir)
Cychwyn: maes parcio pwll nofio Bangor.
Hawdd iawn.

Gwener 19 Rhagfyr 10.00Yb
Gelli Gyffwrdd i Penscoins* (3½ milltir)
Cychwyn: Gelli Gyffwrdd, Llanddeiniolen.
Cymhedrol. Llwybrau cyhoeddus a chamfa. Angen sgidiau cerdded.
*Nifer wedi gofyn i ni wneud y daith yma eto.

Os bydd tywydd yn caniatáu, cawn daith gerdded i ddarganfod y sêr ym mis Ionawr.

Ffoniwch 01286 872014 am ragor o fanylion.



beic drwy fynyddoedd y Rocky, dringo Twr y Diafol a rhoi naid BASE oddi ar bont y New River Gorge yn West Virginia! Ond er gwaethaf ei fenter a'i fywyd heriol, dyn gostyngedig a thawel yw Eric –a dyn llawn cynghorion doeth.

Mae'n talu gwrogaeth i'w fagwraeth wledig ar fferm ym Mrynsaithmarchog ger Corwen ac yn meddwl y byd o'i deulu. Er ei bod yn arbenigwr ar gampau eithafol, mae'n ddyn ystyriol a gofalus, gyda hiwmor tawel a hoffter o gymeriadau naturiol.

Mae'n adrodd hanesion y teithiau anturus, gan gynnwys ambell daith llawn problemau a thrafferthus. Cawn stori ei yrfa fel hyfforddwr dringo yn yr Alpau a'i gaffi yn Nhremadog, ac mae'n cloi drwy ddweud, 'Wnes i erioed ystyried bod y pethau yma dwi wedi'u gwneud yn "bethau gwirion"! Mae'r antur wedi rhoi lliw i'w fywyd ac mae'i straeon yn werth eu darllen.

Gwasg Carreg Gwalch; Pris £9

BYW BREUDDWYD



Dyna fu profiad Cai Llwyd Jones o Riwlus, disgybl Bl. 7 yn Ysgol Brynrefail. Rydym wedi dilyn datblygiad Cai fel chwaraewr tennis addawol ers ei ddyddiau yn Ysgol Bethel. Datblygodd yn aelod o garfan Cymru, gan ennill sawl pencampwriaeth.

Draw yn Arena'r O2 yn Llundain cafodd y wefr o fod yn un o'r 'ball boys' yn ystod Pencampwriaeth Byd yr ATP. Yr 8 chwaraewr gorau, a'r 8 parau gorau sy'n cystadlu yma. Yr hufen go iawn.

“Os am fod y gorau, gwyliwch y gorau”, yw'r hen air, a dyna'n sicr oedd profiad Cai. Caiff Sera, ei fam, gyflwyno'r stori. Diolch iddi, a Gareth ei gŵr am rannu'r profiad gyda ni.

“Wedi derbyn e-bost ym mis Mai, danfonodd Cai ei gais i mewn i fod yn un o'r 'Barclays Ball Kids' ar gyfer y Bencampwriaeth. Ymgeisiodd 1000+ o bobl ifanc dros Brydain. Yn un o'r 500 olaf rhaid oedd mynychu cwrs ym Manceinion. Llwyddoyno – un o'r 100 olaf. Yna'r treialon Prydeinig yn Burton-on-Trent. Llwyddo eto – yn y 30 olaf. Dyma'r 5 carfan o 6 plentyn fyddai yn yr O2. Aros yn Southampton am hyfforddiant di-riant, yna i Lundain ddechrau Tachwedd am ddeg diwrnod gyda'r hyfforddwyr a gweddill y sgwad lwyddianus. Eto heb ei rieni – dipyn o brofiad i fachgen 12 oed.

Yna'r Gystadleuaeth. Roedd pob grwp o 6 yn newid pob 45 munud., a phob grwp ar y cwrt 2/3 gwaith y dydd. Gwaith Cai oedd bwydo'r peli i'r chwaraewyr o gefn y cwrt a gofalu am eu toweli. Bu Cai yn ffodus i fod ar y cwrt gyda sawl un o'r sêr a'u

cyfarfod oddi ar y cwrt. Meddyliwch – hogyn bach o'r wlad yn sgwrsio gyda Djokovic, Federer a Warinka. A beth am y nerfau? Roedd Cai ar y cwrt o flaen torf o 17,000 yn ystod y gêm gyffrous rhwng y ddau o'r Swisdir – Federer a Warinka. (Cafodd y gêm yma dipyn o sylw yn y Wasg oherwydd ymddygiad annerbynniol honedig gwraig Federer.) Roedd Cai yn ofnus ar brydiau meddai. Cafodd Cai gyfnod hefyd i gyfarfod sawl un o'r selebs a fynychodd y Bencampwriaeth – David

Beckham, Jose Morinio, James Rodrigues a'r grwp One Direction.

Ar wahan i'w ddyletswyddau ar y cwrt, roedd yn cymdeithasu yn y 'Fan Zone' a dysgu plant sut i fod yn Ball Kid. Roedd yn ddiwrnod hir iawn o 9.30am i 11pm. Tipyn o faich i blentyn 12 oed – yr ieuengaf erioed i gael ei ddewis.

O ran y cyfryngau dangoswyd y gemau mewn 193 gwlad. Aeth rhaglen TAG S4C draw i'w ffilmio, a bu yn sgwrsio gyda Dylan Jones ar Radio Cymru. Yn sicr bydd profiadau yr O2 gyda Cai am byth ond hefyd geiriau heriol dau o'r prif sêr Djokovic – arwr Cai – a Federer. Meddai Federer, “If you work hard, maybe you will play here one day.” Ar gair olaf i'r pencampwr, Djokovic. “I'm sure you will make a good tennis player, you have a good physique.” Wedi'r profiad a'r ysgogiad yma, mae Cai yn benderfynol o wireddu ei freuddwyd. Gwaith caled ac ymroddiad felly.”

Diolch i Gareth, Sera a Cai a dymunwn yn dda iddo.



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
williamshy@parliament.uk



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad
Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
alunffred.jones@cymru.gov.uk

Chwaraeon

MIS O GYNNAL GWELLIANT

Dyna fu hi i ddau o brif glybiau yr ardal Waunfawr a Llanrug. Bydd y Beganifs yn fodlon iawn a'u perfformiadau yn y gynghrair. Maent yng nghanol rhediad da yn y gynghrair ac mewn sefyllfa foddhaol yn y gynghrair. Uchafbwynt eu mis oedd cyrraedd rownd gyn-derfynnol Cwpan Ganolraddol Gogledd Cymru. Roedd goliau Dewi Clarke(2) a Dylan Hughes yn ddigon i drechu Teigrud Porthaethwy o 3-1. Roedd hon yn ddipyn o sgallp ac yn siwr o roddi hyder i'r hogiau drtos gyfnod y 'Dolig. Bydd ail Dim Llanberis yn gobeithio ymuno a'r Waun drwy drechu Biwmares yn y rownd gyfatebol. Gyda rhediad di-guro o 7 gêm yn y gynghrair a'r cwpanau mae Llanrug bellach yn tanio ac yn dringo'r gynghrair. Mae eu gemau yn llawn goliau, a goliau

Alan Mark Owen yn cynnal y fflam.

Wrth gwrs bydd hogiau Eithin Duon am amddiffyn Tlws Cymru a gobeithio am berfformiad da draw yng Nghwalchmai yn y 4edd rownd. Mae'n dipyn o 'greisis' ar Ffordd Padarn, gydag effaith o golli chwaraewyr allweddol drwy anafiadau yn amlwg.Wedi colli yn erbyn Caersws, byddant yn gobeithio y gallant drechu Four Crosses yn Nhlws Cymru. Gobeithio yn y rhifyn nesaf y gallaf longyfarch Llanrug a Llanberis ar gyrraedd y Sed rownd o'r Tlws, ac efallai edrych ymlaen i gracer o ddarbi.

CYMRU! CYMRU!

Dyna'r gri yn sicr o fyd y bêl-gron y dyddiau hyn. Rwyf wedi cwblhau yr erthyglau cyn i dîm rygbi Cymru wynebu Seland Newydd a De'r Affrig. Gobeithio bod llwyddiant wedi bod yno. Nid yn unig fod Cymru yn profi llwyddiant ond mae canlyniadau yn mynd o'u plaid gyda tim cryf Serbia ym mhell ar eu hôl. Bydd y gemau nesaf yn erbyn gwlad Belg ag Israel yn dyngedfenol. Yr hyn sy'n amlwg yw prinder sgorwyr greddfodol yn y tîm presennol. Heb Volks, y dadleuol Evans a Church mae angen gweddi arnom.. Ni allwn ddibynnu ar yr anhygoel Bale pob tro. Er y diffyg goliau, rhaid canmol tactegau Coleman. Mae'r chwaraewyr yn gyfforddus gyda'r dull o chwarae, ac ar wahan i flaenwyr mae gennym dipyn o ddyfnder gallu yn y garfan erbyn hyn. Mae tipyn o drefn yn y cefn, ac yn amlwg Hennessey yn rhoi hyder i'r tîm. Sut nad yw'n cael gemau rheolaidd i'w glwb? Ymlaen yn hyderus felly, ac yn fy marn i, aros yn Stadiwm Dinas Caerdydd ar gyfer ein gemau cartref. Yno credaf y gallwn fanteisio ar y berthynas sydd yn datblygu rhwng y gwir gefnogwyr ffyddlon a'r garfan bresenol.



BETH SYDD YNO RWAN?

Cefais ymholiad gan ffrind yn niweddar ynglyn ag aelodau tîm pel-droed Bangor G.P.O. yn nhymor 1946-47. Roeddent yn chwarae yng Nghyngrair Bangor a'r Cylch. Yn y tîm roedd un aeth ymlaen i chwarae i Lerpwl ac un gydag Everton. Roedd y llun a gefais wedi ei gymryd ar gae Llechid Celts yn Rachub. Erbyn y tymor dilynol, ar wahan i Lanberis a Llanrug roedd timau Glasinfryn, Pentir, Rhiwlas a Bethel wedi ymuno.Roedd timau gwaith hefyd fel B.E.M.Bangor, Bangor Railway Institute, a Llandwrog R.A.F. Ble tybed roedd caeau y timau yma? Gwn fod hogiau Bethel ar un cyfnod wedi chwarae ar Gae'r Ddôl, ble mae'r stad dai yr wyf i'n trigo ynddi heddiw. Beth am gaeau Deiniolen a rhai o'r pentrefi eraill. Diddorol fuasai cael cofnod. Cafwyd erthygl gan un o gyn hogiau Llanberis dro yn ôl yn rhestru y 'caeau' yr oedd timau 'stryd' Llanberis yn cynnal gemau. Rwyn siwr fod testun darlith 'Hen Gaeau Pêl-droed Arfon' yma'n sicr. Unrhyw wybodaeth gadewch i mi wybod.

CANICROSS.

Camp newydd yw rhedeg efo ci. Cynhaliwyd y gystadleuaeth gyntaf o'i bath yng Nghoedwig Niwbwrch yn ystod y mis, ac yr oedd dau o fechgyn y fro yn cystadlu. Yn y llun gwelir Emyr Gibson (Deiniolen) a Huw Owen (Llanrug) – heb anghofio'u cyfeillion ffyddlonaf! Hefyd yn y llun mae Emlyn Roberts o Fangor.

Ond – beth am fathu term Cymraeg am 'canicross'? Anfonwch eich syniadau i'r Golygydd Chwaraeon.




Gwesty Dolbadarn
Llanberis

Ffôn-(01286)-870277

grid ⁷⁶

dylunio graffeg/graphic design
darlunio/illustration
animeiddio/animation
graffeg arddangos/display graphics



- Cardiau Busnes
- Arwyddion
- Graffeg ar Gerbydau
- Gwefanau a mwy...

Llanrug 07766956673 gwyndaf@grid76.co.uk
gwasanaeth dwyieithog llawn/fully bilingual service

Chwaraeon



Pencampwr Beicio Ifanc.

Osian Evans o Lanrug ennillodd gyfres "Welsh Cycling Go-Race Mountain Biking North Wales Series 2014" yn yr oedran o dan 6 mlwydd oed. Ennillodd y ras olaf yn y gyfres ar ddydd Sadwrn cyntaf fis Tachwedd. Ar ol pob ras mae pob plentyn yn gorfod cwblhau cwrs sgiliau hefyd. Mae pwyntiau y ras a'r cwrs sgiliau yn cael eu cynnwys i benderfynu ar y pwyntiau terfynol.

Cynhaliwyd y rasys ym Mharc Padarn, Llanberis; Coed y Brenin, Trawsfynydd; canolfan awyr agored Nant Bwlch yr Haearn, Betws

y Coed, Llanfyllin a Wrecsam. Mae rasys yn cael eu cynnal dan 6, dan 8, dan 10, dan 12, adran iau ac adran ieuenctid i enethod a hogiau. Mike Tong o Welsh Cycling MTB sydd yn eu trefnu ac yn gwobrwyo'r ennillwyr gyda tystysgrif 1af, 2il, 3ydd pob ras. Ar ddiwedd y gyfres mae ennillydd pob oedran (genethod a bechgyn) yn cael tarian a phob un sydd wedi cystadlu yn cael gwobr fechan. Dewisiodd Osian "buff" i gadw ei wddw'n gynnes pan yn beicio dros y gaeaf.

Rasio Motobeics.

Llongyfarchiadau i Dim Rasio Motobeics Bryn Taff - tim o'r ardal hefo dau hogyn lleol, Bryn Owen a Darren Jones, yn reidio i'r tim. Yn ddiweddar fe gynhaliwyd yr Anglesey Grand, ar faes rasio Tŷ Croes, Ynys Môn. Y Grand yw'r penwythnos pwysicaf yng nghalendr rasio beiciau modur Gogledd Cymru gyda dros 300 o bob rhan o Brydain yn cystadlu mewn chwe gwahanol ddosbarth. Ar yr ail brynhawn mae rasmus pencampwriaethau y gwahanol ddosbarthiadau yn cael eu cynnal. Roedd Bryn Owen yn cystadlu yn Ras Pencampwrieth beiciau hyd at 500cc ac er fod beiciau llawer cryfach na'i feic o yn y ras Bryn enillodd a chipio'r brif wobwr. Mae cynnal tim bychan fel hwn yn gostus ac mae Bryn Taff yn ddiolchgar dros ben am gyfraniad ei noddwyr. Petai rhywun arall â diddordeb nodd i'r tim byddai Bryn yn falch iawn o gael sgwrs â hwy ar 01286 676456.

